# Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Elusennau
**2014-15**

COMISIWN
ELUSENNAU

# Cynnwys


**1 Cyflwyniad**

**2 Statws elusennol a'r Gofrestr elusennau**

**3 Ein gwaith yn y Tribiwnlys a'r Uchel Lys**

**4 Hyrwyddo cydymffurfiaeth**

**5 Hyrwyddo atebolrwydd**

**6 Galluogi a hunanddibyniaeth**

**7 Ffigurau'r flwyddyn hon**

# 1 Cyflwyniad

## Rhagair

**Mae elusennau ymysg y sefydliadau hynaf yr ymddiriedir fwyaf ynddynt yn ein cymdeithas - ac felly y dylai fod.**

Mae elusennau yn gynnyrch y traddodiad hael o roi'n wirfoddol sydd wrth wraidd ein bywyd cenedlaethol. Mae'r haelioni hwnnw wedi cael ei gydnabod yn y gyfraith, a'i reoleiddio, ers Statud Elisabeth yn 1601. Mae'r Deyrnas Unedig wedi bod yn un o'r gwledydd mwyaf dyngarol mewn hanes ac mae ei hesiampl wedi lledaenu o gwmpas rhan helaeth o'r byd.

Ein cenhadaeth fel rheoleiddiwr yw coleddu a gwarchod y traddodiad hwnnw yng Nghymru a Lloegr: cynyddu ffydd a hyder y cyhoedd mewn elusennau, er mwyn iddynt allu parhau i chwarae eu rôl ganolog mewn cymdeithas. Mae dadleuon diweddar am arferion codi arian yn dangos nad yw ffydd gyhoeddus mewn elusennau yn ddisgybl, ac ni ellir ei chymryd yn ganiataol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut roeddem wedi cyflawni'r genhadaeth honno yn 2014-15. Mae'n disgrifio rheoleiddiwr sy'n fwy rhagweithiol a phenderfynol wrth rwystro, atal ac ymateb i gamddefnydd a chamreoli mewn elusennau; sy'n sicrhau cywirdeb y Gofrestr elusennau; ac sy'n ceisio helpu ymddiriedolwyr i redeg eu helusennau mewn modd effeithiol.

Adroddwn ar ychydig o'n gwaith achos a rhai o'r ymchwiliadau statudol rydym wedi eu cychwyn, ar ein gwaith yn y Tribiwnlys a'r llysoedd, ac ar ein canllawiau cyhoeddedig wedi'u diweddaru.

Roedd 2014-15 yn flwyddyn o lwyddiannau i'r Comisiwn Elusennau.

Rydym wedi sicrhau £9 miliwn ychwanegol o gyllid buddsoddi gan y Trysorlys. Mae'r arwydd hon o ymddiriedaeth yn galluogi ein rhaglen trawsnewid erbyn hyn, a gytunwyd gan y bwrdd yn 2014. Bydd y rhaglen hon yn cryfhau ein systemau brysbennu, er mwyn i ni allu adnabod problemau mewn elusennau presennol ac mewn ceisiadau ar gyfer cofrestru elusennol yn fwy effeithiol. Bydd hefyd yn ein galluogi i awtomeiddio'r rhan fwyaf o'n rhyngweithiadau risg isaf ag elusennau, gan felly rhyddhau ein staff i ganolbwyntio ar waith achos rheoleiddio cymhleth a risg uchel.

Rydym wedi galw ers amser am ddeddfwriaeth i roi sylw i'r gwendidau yn ein pwerau cyfreithiol a gorfodi. Derbyniodd y Bil Elusennau (Diogelu a Buddsoddiad Cymdeithasol), y pwysleisiodd y Prif Weinidog y byddai'n ein helpu ni yn y frwydr yn erbyn twyll a therfysgaeth, gefnogaeth bob plaid yng ngham y pwyllgor yn y Senedd ddiwethaf ac wedi'i gynnwys yn Araith y Frenhines y llywodraeth newydd ar 27 Mai, 2015.

Yn olaf, yn ei hadroddiad diwethaf, cymeradwyodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ein rhaglen trawsnewid a'r cynnydd rydym eisoes wedi'i wneud. Soniodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol am ein "cynnydd da a chynnar" o ran rhoi eu hargymhellion ar waith, ac mae wedi cydnabod y camau rydym yn eu cymryd i fod yn rheoleiddiwr mwy rhagweithiol a chadarn.

> *"Mae'r Comisiwn wedi gwneud cynnydd da a chynnar o ran rhoi sylw i bob un o'r argymhellion diweddar a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol."*
>
> **Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Ionawr 2015**

Nid yw'r llwyddiannau hyn yn unrhyw sail dros hunanfodlonrwydd. Mae ein cynllun strategol newydd, a gafodd ei gytuno gan y bwrdd ym mis Mai, yn amlinellu ein prif amcanion ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun yn uchelgeisiol, a bydd yn gofyn am ymrwymiad a phenderfyniad parhaus y bwrdd a'n staff i fodloni ein nodau.

Ond, fel yr eglura'r Adroddiad Blynyddol hwn, mae'r Comisiwn ymhell ar y ffordd at fod y rheoleiddiwr seiliedig ar risg, cadarn, rhagweithiol a chymesur y mae'r cyhoedd, ac elusennau, yn ei ddisgwyl ac yn ei haeddu.

Mae'r gair elusen yn tarddu o'r gair Lladin 'caritas' - sy'n golygu gofal, ac a alwodd Thomas Aquinas "y rhinwedd rhagoraf un". Mae'r Comisiwn yn bodoli i warchod a gwella'r rhagoriaeth honno.

William Shawcross        Paula Sussex

## Ein cynllun strategol 2015-18: nodau allweddol

Mae ein cynllun strategol tair blynedd newydd yn amlinellu nodau strategol y Comisiwn Elusennau ('y Comisiwn'), ac yn crynhoi'r ymagweddau rydym yn eu mabwysiadu at gyflawni'r nodau hynny:

- cryfhau'r mesurau i ddiogelu elusennau rhag cael eu camddefnyddio neu eu camreoli, er enghraifft trwy wneud defnydd gwell o ddata a chanolbwyntio adnoddau ar faterion risg uwch

- galluogi ymddiriedolwyr i redeg eu helusennau yn fwy effeithiol, er enghraifft trwy wella sianeli hunanwasanaeth a darparu canllawiau â ffocws yn ddigidol

- annog mwy o dryloywder ac atebolrwydd gan elusennau, er enghraifft trwy wella cywirdeb y Gofrestr elusennau ('y Gofrestru') a gwneud gwaith craffu cyn ac ar ôl cofrestru

- gweithredu fel rheoleiddiwr effeithlon, arbenigol gyda chyllid cynaliadwy, er enghraifft trwy ailgynllunio ein prosesau busnes, archwilio modelau cyllido eraill ac adeiladu mwy o ymgysylltiad yn ein gweithlu

> *"Mae elfennau allweddol o ddulliau rheoli rhaglen da yn cael eu mabwysiadu."*
>
> **Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Ionawr 2015**

## Ein rhaglen trawsnewid

Cyfrwng allweddol ar gyfer cyflawni ein nodau strategol yw'r rhaglen trawsnewid a gytunwyd gan y bwrdd ym Medi 2014. Mae gan y rhaglen dri phrif nod :

- gwella ein defnydd o ddata i fesur a gweithredu ar risg
- awtomeiddio gwasanaethau a symleiddio gwasanaethau cwsmeriaid risg isel
- creu'r newid sefydliadol a diwylliannol sydd ei angen i gefnogi newid

Mae wyth prif brosiect wedi'u cynnwys o dan y rhaglen ; mae pob un ohonynt yng nghamau cynnar datblygiad:

1. Diweddaru ein fframwaith risg.
2. Datblygu a gweithredu systemau rheoli achosion newydd sy'n gallu cefnogi'r ymagwedd newydd seiliedig ar risg.
3. Gwella dulliau casglu, deall a dadansoddi data i helpu i wneud penderfyniadau a gwella mynediad i ddata i gefnogi gwaith achos.
4. Gwella gweithrediad y gronfa ddata elusennau er mwyn gwella chwilio; cynnig modd dal data newydd i gefnogi gwaith achos a'r offeryn chwilio elusennau cyhoeddus.
5. Darparu rhagor o ffurflenni ar-lein gwell er mwyn cynnig hunanwasanaeth ar gyfer trafodion syml, risg isel a dulliau mwy effeithlon o gyflwyno cyfrifon a ffurflenni elusennau ar-lein.
6. Ar y cyd â HMRC, cynnig modd i elusennau gofrestru'n fwy effeithlon â'r Comisiwn a HMRC.

7. Ar y cyd â Thŷ'r Cwmnïau, cytuno ar safonau gwybodaeth rhannu data ar gyfer ffurflenni ariannol.
8. Darparu proses busnes reng-flaen a newid strwythurol i ryddhau staff i wneud gwaith risg uchel. Lleihau costau llety, cyflwyno newid diwylliant a cheisio bod yn gyflogwr o ddewis.

## Ffigurau'r flwyddyn hon: uchafbwyntiau

**7,192** o geisiadau i'r Gofrestr

**4,648** o geisiadau i gofrestru elusennau wedi'u cymeradwyo

**55,131** o e-byst wedi'u hasesu gan Gyswllt Cyntaf

**2,129** o ddigwyddiadau difrifol wedi'u hadrodd gan elusennau

**87%** o Ffurflenni Blynyddol wedi'u derbyn o fewn y dyddiad cau

**86%** o gyfrifon blynyddol wedi'u derbyn o fewn y dyddiad cau

**1,024** o achosion cydymffurfiaeth weithredol wedi'u cychwyn

**1,169** o achosion caniatâd gweithredol wedi'u cychwyn

**442** o achosion monitro wedi'u cychwyn

**103** o ymchwiliadau statudol wedi'u cychwyn

**133** o ymchwiliadau yn fyw fel ar 31 Mawrth 2015

**£44.6m** o asedau elusennol wedi'u diogelu'n uniongyrchol

**£60m** o asedau elusennol wedi'u cyfrif amdanynt yn yr ymchwiliad dosbarth i elusennau sydd heb gyflwyno manylion mwy nag unwaith ers Medi 2013

**1,060** o achosion o ddefnyddio ein pwerau mewn gwaith achos cydymffurfio[1]

Am ystadegau pellach, gweler Rhan 7 Ffigurau'r flwyddyn hon.

[1] Mae hyn yn cynnwys y pwerau a ddefnyddiwyd yn ystod ein holl waith achos cydymffurfio.

**Ein cyllideb ar gyfer 2014-15 yn erbyn gwerth yr asedau elusennol rydym yn eu diogelu**



# 2 Statws elusennol a'r Gofrestr elusennau

**Mae pob elusen yn ddarostyngedig i fframwaith cyfreithiol cyffredin.**

Mae mwy na 164,000 o elusennau ar y Gofrestr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r elusennau hyn yn amrywio'n fawr - o ran cenhadaeth, gweithgaredd, maint a chymhlethdod. Maent yn amrywio o elusennau 'bwrdd cegin' bach, lleol sy'n cael eu rhedeg gan ymddiriedolwyr gwirfoddol i sefydliadau rhyngwladol sy'n cyflogi cannoedd o bobl ac yn darparu gwasanaethau cymhleth. Yr hyn sy'n eu huno nhw i gyd yw fframwaith y gyfraith elusennau.

Mae statws elusennau yn dibynnu ar brawf statudol. Er mwyn bod yn gymwys i gael statws elusennol, mae'n rhaid i sefydliad gael dibenion elusennol yn unig er budd y cyhoedd. Mae Deddf Elusennau 2011 (y 'Ddeddf') yn amlinellu'r disgrifiadau o ddibenion a gydnabyddir fel rhai elusennol; mae'r diffiniad o fudd cyhoeddus yn deillio o'r Ddeddf, ac o gyfraith achosion.

Mae'n rhaid i elusennau gydag incwm o fwy na £5,000 gael eu cofrestru â'r Comisiwn fel arfer. Ac eithrio Sefydliadau Corfforedig Elusennol (SCEau), nid yw elusennau llai (llai nag £5,000 o incwm) yn cofrestru, ond mae'n rhaid i hyd yn oed elusennau anghofrestredig gydymffurfio â'r gyfraith elusennau. Nid oes rhaid i rai mathau o elusennau gofrestru o gwbl oherwydd eu bod nhw naill ai wedi'u hesgusodi, sy'n golygu nad ydynt wedi'u rheoleiddio gan y Comisiwn ond gan reoleiddiwr arall (er enghraifft, ysgolion academi), neu oherwydd eu bod nhw wedi cael eu heithrio yn hanesyddol o'r gofyniad i gofrestru, er gwaetha'r ffaith eu bod nhw'n dod o dan ein goruchwyliaeth reoleiddio.

## Sut ydym yn asesu ceisiadau am statws elusennol

Pan fydd sefydliadau'n gwneud cais i gofrestru fel elusen, ein rôl yw eu profi nhw yn erbyn y diffiniad cyfreithiol o elusen. Rydym hefyd yn gwneud ymholiadau sy'n ein helpu ni i benderfynu a yw'r ymddiriedolwyr yn gallu cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol.

Byddwn yn derbyn tua 5,000 - 7,000 o geisiadau i gofrestru elusennau bob blwyddyn. Derbyniwyd **7,192** o geisiadau'r flwyddyn hon. Cofrestrwyd **4,648** o sefydliadau, oherwydd eu bod nhw'n gallu dangos yn ddigamsyniol eu bod nhw'n bodloni'r prawf statws elusennol. Roedd hyn yn cynnwys **2,248** o SCEau - bron dwywaith y nifer a gofrestrodd yn 2013-14.

Mae ceisiadau cofrestru yn cael eu prosesu'n drylwyr, ac nid oedd tuag un rhan o dair o geisiadau yn 2014-15 wedi arwain at gofrestru oherwydd roedd yr ymgeiswyr wedi methu â darparu gwybodaeth ddigonol i ddangos bod y sefydliad yn bodloni gofynion statws elusennol, neu oherwydd ein bod yn benderfynol nad oedd y sefydliadau o fewn ein hawdurdodaeth.

Yn ogystal â hynny, yn ystod y flwyddyn gwrthodwyd **34** o geisiadau am statws elusennol yn ffurfiol. Gwrthodwn sefydliad os nad ydym yn fodlon bod statws elusennol ganddo ond mae ymgeiswyr am i ni wneud penderfyniad ffurfiol er mwyn iddynt allu apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) ('y Tribiwnlys'). Mae achosion o'r fath yn aml yn profi'r gyfraith elusennau. Croesawn apeliadau oherwydd mae'r penderfyniadau sy'n deillio ohonynt yn cynnig eglurder ar feysydd cymhleth o'r gyfraith elusennau. Gweler Rhan 3 Ein gwaith yn y Tribiwnlys a'r Llysoedd.

> *"Dogfen lywodraethol elusen yw ei lyfr rheolau. Mae'n ddogfen gyfreithiol sy'n amlinellu sut i redeg eich elusen, felly mae'n bwysig iawn eich bod chi'n ei drafftio'n ofalus a'ch bod yn ei deall ac yn ei defnyddio. Defnyddiwch ein templedi a'n canllawiau i ddewis y strwythur iawn a cheisiwch gyngor proffesiynol os oes angen; mae dogfennau llywodraethol wedi'u drafftio'n wael yn arafu'r brosesu cofrestru elusen, felly cymerwch eich amser."*
>
> **Mark Edwards, Uwch Swyddog Achos, Cofrestru**

**Cyfran y ceisiadau sy'n arwain at gofrestru**



## Nodiadau achos

**Full Fact**

Mae Full Fact (FF) yn disgrifio ei hun fel 'sefydliad gwirio ffeithiau annibynnol'. Mae'n ceisio darparu gwybodaeth fanwl-gywir ar faterion o ddiddordeb cyhoeddus a gwella ansawdd trafodaethau cyhoeddus a gwleidyddol a sylw yn y cyfryngau am yr wybodaeth honno. Gwnaeth FF gais i gofrestru fel elusen yn 2009, gydag amcanion i hyrwyddo dinasyddiaeth a chyfrifoldeb dinesig. Nid oeddem wedi cofrestru'r sefydliad oherwydd nid oeddem yn fodlon bod amcanion elusennol yn unig ganddo. Apeliodd FF at y Tribiwnlys yn 2011 ac roedd y Tribiwnlys wedi cynnal ein penderfyniad.

Cyflwynodd FF gais o'r newydd yn 2013, gydag amcanion diwygiedig i hyrwyddo addysg, sydd yn amlwg yn ddiben a all fod yn elusennol. Fodd bynnag, mae terfynau ar yr hyn sy'n addysgol yn ôl y gyfraith elusennau. Mae'r llysoedd wedi cynnal, er mwyn bod yn elusen, rhaid i sefydliad hyrwyddo addysg yn y ffordd a fwriedir ac mewn ffordd sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus.

Yn arbennig, mae hyn yn golygu na all y sefydliad hyrwyddo safbwynt arbennig ond rhoi cyfle i unigolion ffurfio eu barn nhw am bynciau sydd o deilyngdod addysgol amlwg ac sydd fel arall yn bodloni safonau gofynnol addysg yn ôl y gyfraith elusennau.

Mae penderfynu a yw FF yn elusen addysgol neu beidio yn dibynnu ar gywirdeb a natur awdurdodol yr wybodaeth y mae'n ei darparu. Yn ei dro mae hyn yn dibynnu ar ansawdd, tryloywder a niwtraliaeth wleidyddol y gwaith ac i ba raddau y mae'n gallu cael ei asesu'n annibynnol. Roedd rhaid i ni benderfynu a yw FF yn darparu ffynhonnell gwybodaeth awdurdodol, sy'n ddigon annibynnol a rhydd rhag rhagfarn ac felly nid yw ei allbwn yn cael ei weld fel dim ond barn arall ar fater o fudd cyhoeddus. Roedd rhaid i ni fod yn glir hefyd am y pynciau addysg y mae'n ymgysylltu â nhw, a bodloni ein hunain bod gwerth addysgol iddynt.

Os yw dibenion sefydliad yn aneglur, gallwn edrych ar ei weithgareddau. Dyma beth wnaethom ni yn yr achos hwn, gan gynnwys adolygiad o'r wybodaeth ar wefan FF. Dangosodd FF dystiolaeth fod prosesau ganddo ar gyfer dilysu cywirdeb a didueddrwydd yr wybodaeth y mae'n ei chyhoeddi. Derbyniom lythyrau o gefnogaeth hefyd gan gyrff annibynnol i gadarnhau bod gwaith FF yn awdurdodol ac o werth.

Cytunwyd i gofrestru FF ar sail yr amcanion diwygiedig oedd wedi nodi pynciau a safonau addysg ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adolygiad annibynnol achlysurol i sicrhau bod gwaith FF yn awdurdodol, o ansawdd a chywirdeb digonol, yn gyson â'i amcanion ac yn cydymffurfio â safonau perthnasol, fel y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

**Access: The Foundation for Social Investment**

Mae Access yn helpu i hwyluso mynediad i fuddsoddiad cymdeithasol a'r mathau o gyllid y mae ei angen ar y sector cymdeithasol, gan gynnwys elusennau a sefydliadau cymdeithasol, i dyfu. Mae'n cynnig arweiniad i'r sector cyhoeddus er mwyn gallu datblygu sgiliau ac adnoddau.

Gwnaeth gais i gofrestru gydag amcanion manwl yn seiliedig ar 'hyrwyddo effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y sector cymdeithasol' a 'hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau ar gyfer dibenion elusennau gan gyrff elusennol ac anelusennol.'

Nid yw hyrwyddo buddsoddiad cymdeithasol yn elusennol ynddo'i hun. Nid yw'n elusennau ychwaith i hyrwyddo effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyrff anelusennol. Felly roedd rhaid i ni ystyried y cais yn ofalus er mwyn penderfynu a oedd dibenion Access yn elusennol yn unig.

Y materion roeddem wedi'u hystyried yn achos Access oedd:

(a) a oedd y cymorth i 'sefydliadau cymdeithasol' wedi'i gyfeirio tuag at ddibenion elusennol yn unig ac a oedd unrhyw fudd personol i'r sefydliadau hyn yn atodol i hynny
(b) a fyddai goruchwyliaeth ddigonol gan yr ymddiriedolwyr dros gronfa rhoi grantiau i'w gweithredu gan banel oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau eraill

Diwygiodd Access ei amcanion i egluro'r diffiniad o 'sefydliadau cymdeithasol' a'i ddiben o hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adnoddau at ddibenion elusennol er budd cyhoeddus, gan sicrhau bod unrhyw fudd personol i sefydliadau anelusennol yn atodol. Cytunom i gofrestru Access gyda'r amcanion diwygiedig hyn.

**Cambridgeshire Target Shooting Association**

Derbyniwyd cais i gofrestru fel elusen gan Gymdeithas Saethu Targedau Swydd Gaergrawnt (CTSA).

Mae CTSA yn gweithredu fel Cymdeithas Sirol. Mae'n gweinyddu cynghreiriau saeth targedau ar gyfer ei glybiau cyswllt a'u haelodau. Mae'n trefnu nifer o ddigwyddiadau a chystadlaethau, gan gynnwys y Bencampwriaeth Sirol. Mae hefyd yn rheoli cyfleuster saethu targedau. Mae hyn ar gael i'w hurio gan glybiau cyswllt ac mae ar gael i glybiau cydnabyddedig eraill (y rhai sydd wedi'u cysylltu â'r Gymdeithas Reiffl Calibr Genedlaethol a'u haelodau. Mae CTSA hefyd yn darparu hyfforddiant i glybiau ac unigolion, yn enwedig y rhai sy'n newydd i'r gamp, pobl ifanc a phobl anabl.

Gwnaethom ni ystyried a oedd CTSA yn elusennol drwy edrych ar yr amcanion y cafodd ei sefydlu i'w cyflawni. Roedd y rhain yn cynnwys hyrwyddo adloniant iach neu hyrwyddo chwaraeon amatur. Yn y ddau achos y mater roedd angen i ni ei ystyried oedd a yw'r gweithgaredd o saethu targedau yn 'gamp neu'n gêm sy'n

hyrwyddo iechyd drwy gynnwys sgil neu ymdrech corfforol neu feddyliol', sef gofyniad y Ddeddf.

Cyflwynwyd tystiolaeth yn amlinellu buddion corfforol a meddyliol posibl saethu. Roedd y buddion a ddisgrifiwyd yn cynnwys cryfder y fraich, cryfder rhan isaf y cefn, ystwythder, stamina, cyfradd y galon is a gwell cydbwysedd. Roedd elfennau meddyliol yn cynnwys gwella'r gallu i ganolbwyntio, rheoli pryder a mwy o ddisgyblaeth feddyliol. Esboniwyd hefyd bod saethu targedau yn gamp oedd yn gofyn am lefelau uchel o ffitrwydd i lwyddo.

Cydnabuom er mwyn gwneud cynnydd a llwyddo mewn saethu targedau, fel nifer o gampau eraill, mae'n rhaid bod yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol. Fodd bynnag, nid oeddem yn fodlon bod y buddion o iechyd yn deillio o reidrwydd o'r gweithgaredd ei hun. Roedd gwahaniaeth rhwng yr hyfforddiant sy'n cael ei wneud er mwyn gwella ffitrwydd a'r budd a ddaw drwy wneud y gweithgaredd ei hun. Er y gallai fod tystiolaeth bod adloniant neu'r gamp o saethu targedau yn cynnig rhai buddion iechyd ar lefel uwch o saethu, nid oedd yn hyrwyddo iechyd yn yr ystyr ehangach o fewn ystyr y Ddeddf drwy ddangos effaith fesuradwy ar iechyd cyffredinol yr unigolyn sy'n deillio o'r gweithgaredd. Yn unol â hynny, nid oeddem yn gallu cydnabod CTSA fel sefydliad a ffurfiwyd at ddibenion elusennol yn unig er budd y cyhoedd, ac felly daethom i'r casgliad nad oedd yn elusen.

Mae CTSA wedi apelio yn erbyn ein penderfyniad i'r Tribiwnlys.

Mae rhedeg elusen yn gyfrifoldeb pwysig, ac ni ddylai'r penderfyniad i sefydlu elusen newydd gael ei gymryd ar chwarae bach. Mae rôl yr ymddiriedolwr yn un heriol. Rydym yn annog pobl i feddwl yn ofalus a allant wneud mwy i helpu'r achos o'u dewis trwy gymryd rhan mewn elusen sy'n bod, efallai trwy wirfoddoli neu godi arian. Gwyddom o'n gwaith achos nad yw pob elusen yn cael effaith.

Ceisiwn annog ymddiriedolwyr elusen sy'n bod i adolygu effaith eu helusen yn gyson. Weithiau y ffordd orau o gefnogi buddiolwyr a chael yr effaith fwyaf yw cydnabod nad oes angen elusen sy'n bod mwyach, naill ai oherwydd ei bod wedi cyflawni ei chenhadaeth, neu oherwydd bod elusen debyg arall yn gwneud gwaith mwy effeithiol, ac felly byddai'n well uno neu ddirwyn yr elusen i ben.

## Monitro elusennau sydd newydd gofrestru

Rydym wedi cynyddu ein gwaith o fonitro sefydliadau sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer statws elusennol ac sy'n rhaid cofrestru, ond sy'n achosi pryder nad yw'r elusen efallai'n gweithredu fel y datgenir ar adeg ymgeisio. Er enghraifft, gallai pryderon ymwneud â:

- lefel y gweithgarwch elusennol
- y nodweddion y gwyddom sy'n gysylltiedig â risg, fel dosbarthu cymorth i barthau gwrthdaro dramor neu weithio gyda chwmnïau codi arian masnachol (gweler tudalen 19 am ragor o wybodaeth ar ein hymagwedd at asesu risg mewn elusennau)
- unigolion sy'n ymwneud â'r elusen

Cyfeiriwyd **164** o elusennau ar gyfer monitro cyn neu ar ôl cofrestru yn 2014-15. Roedd hyn yn cynnwys 57 o atgyfeiriadau yn ymwneud â neuaddau cwrdd yr elusen oedd newydd gofrestru Plymouth Brethren Christian Church (PBCC). Rydym yn monitro holl neuaddau cwrdd PBCC sydd newydd gofrestru i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dogfennau llywodraethol ac yn rhoi'r sicrwydd roeddent wedi'i roi i ni pan oeddem wedi'u cofrestru nhw fel elusennau. Mae rhagor o wybodaeth am ein hymgysylltiad â PBCC ar gael ar GOV.UK.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith monitro ehangach, gweler Rhan 3 Hyrwyddo cydymffurfiaeth.

**Nodiadau achos**

**Children's Cancer and Leukaemia Fund (CALF)**

Rydym wedi bod yn ymgysylltu'n rhagweithiol ag elusennau sydd newydd gofrestru sy'n llunio cytundebau â chwmnïau dillad masnachol. Mae ein gwaith achos yn dangos bod contractau o'r fath yn arwain at broblemau yn aml, oherwydd nid yw ymddiriedolwyr yn monitro ac yn rheoli'r bartneriaeth yn briodol. Yn achos yr elusen arbennig hon, roedd ein hymgysylltiad wedi arwain at adnabod pryderon eraill yn ymwneud â chamddefnydd a chamreoli.

Cofrestrodd CALF yn 2011 a lluniodd gytundeb â chwmni dillad masnachol o fewn ei blwyddyn gyntaf yn gweithredu.

**Y camau a gymerwyd:** Cawsom ni gyfriflenni banc yr elusen. Gwnaethom ni geisio cwrdd â'r ymddiriedolwyr, ond roedden nhw wedi canslo pob cyfarfod ar fyr rybudd.

**Beth wnaethom ni ei ddarganfod:** Nid oeddem wedi nodi pryderon am berthynas yr elusen â'r cwmni dillad; roedd yr olaf wedi bod yn gwneud taliadau rheolaidd i gyfrif banc yr elusen.

Fodd bynnag, roedd y cyfriflenni banc yn dangos:

- taliadau o fwy na £1,800 i un o'r ymddiriedolwyr
- taliadau o £7,600 am wasanaethau nad oeddent yn hyrwyddo amcanion yr elusen, er enghraifft triniaeth ddeintyddol
- tynnu £7,200 o arian parod

Cyflwynwyd yr wybodaeth hon i'r ymddiriedolwyr ond cawsom wybod bod peth o'r arian wedi cael ei ddefnyddio i brynu teganau o stondinau marchnad a bod y teganau hyn, ynghyd â chofnodion yr elusen, wedi cael eu dinistrio mewn llifogydd.

Daeth yn glir bod un ymddiriedolwr wedi bod yn rheoli'r elusen, gan ddefnyddio enwau perthnasau heb eu gwybodaeth.

**Effaith ein gwaith:** Ym Mawrth 2013, cafodd ein tystiolaeth a'n pryderon eu rhannu â'r heddlu. Cafodd yr elusen ei dileu o'r Gofrestr hefyd oherwydd nid oedd

yn gweithredu mwyach. Yn Hydref 2014, roedd rhai o'r ymddiriedolwr elusen wedi pledio'n euog i droseddau, cafodd un ddedfryd o garchar, a chafodd y llall dedfryd ohiriedig.

Nid oedd y cwmni dillad yn ymwybodol o'r drwgweithredu ac fe ddosbarthodd yr arian oedd yn weddill a godwyd ar gyfer CALF i elusennau gydag amcanion tebyg.

*"Mae'r achos hwn yn enghraifft wych o ymagwedd ragweithiol lwyddiannus a arweiniodd yn y pen draw at ddau droseddwr yn cael eu dedfrydu. Fel rheoleiddiwr rhagweithiol a chadarn, pan fyddwn yn sylwi ar risgiau i elusennau sydd newydd gofrestru rydym yn gweithredu'n gyflym. Mae achosion fel hyn yn helpu i sicrhau'r cyhoedd ein bod ni'n gweithio i amharu ar gamddefnydd a diogelu ffydd a hyder mewn elusennau."*

**Marie Joyce, Rheolwr Achosion, Ymchwiliadau, Monitro a Gorfodi**

**Monitro cyn-gofrestru yn codi pryderon**

**Am y sefydliad:** Honnwyd bod y sefydliad wedi'i ffurfio i godi arian i helpu pobl yn Bangladesh.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Cyflwynodd y sefydliad gais cofrestru ym Mehefin 2014. Nid oedd y cais yn caniatáu i ni ddod i'r casgliad bod gan y sefydliad amcanion elusennol yn unig er budd y cyhoedd. Er enghraifft, un o'r amcanion a nodwyd oedd codi arian. Nid yw codi arian yn ddiben elusennol, ond yn weithgaredd i gefnogi dibenion elusennol. Yn ogystal, cafodd cais y sefydliad ei gyflwyno gan unigolyn oedd yn gysylltiedig â cheisiadau eraill oedd wedi bod yn achos o bryder.

**Y camau a gymerwyd:** Cyn dod i gasgliad ynghylch statws cyfreithiol y sefydliad, roedd rhaid i ni ei fonitro er mwyn sefydlu ei ddibenion ac asesu'r pryderon. Trefnwyd cyfarfod â'r unigolion a enwyd fel ymddiriedolwyr yng Ngorffennaf. Roedd un person a enwyd fel ymddiriedolwr ac asiant yr elusen yn bresennol yn y cyfarfod.

**Beth wnaethom ni ei ddarganfod:** O ganlyniad i'r cyfarfod, nodwyd pryderon pellach. Er enghraifft, daethom i wybod bod deunyddiau codi arian y sefydliad yn honni'n gamarweiniol ei fod yn elusen gofrestredig. Roedd y deunyddiau hefyd yn honni y byddai'r rhoddwyr yn noddi plant amddifad yn Affrica, ond roedd yr wybodaeth yn y dogfennau ymgeisio yn cyfeirio at helpu pobl yn Bangladesh.

Nid oedd yr unigolion dan sylw yn gallu ateb ein cwestiynau gwreiddiol am amcanion y sefydliad neu ddarparu'r dystiolaeth oedd ei hangen o brawf incwm. Felly nid oeddem yn gallu derbyn bod y sefydliad yn bodloni'r prawf elusen, ac nid oeddem wedi'i gofrestru.

**Effaith ein gwaith:** Ni chafodd sefydliad na allai ddangos dibenion elusennol ei rhoi ar y Gofrestr.

Rydym yn buddsoddi mewn systemau a thechnoleg a fydd yn caniatáu i ni awtomeiddio cyfran sylweddol o'n gwaith achos risg isel, gan gynnwys ceisiadau cofrestru, gan ganiatáu i ni neilltuo mwy o adnoddau ar gyfer achosion risg uwch a lleihau costau ac amser i ymgeiswyr risg isel.

## Cynnal y Gofrestr

Mae dyletswydd gennym i gynnal Cofrestr gywir. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr roi gwybod i ni pan fyddant wedi diwygio dogfen lywodraethol eu helusen neu pan fydd newidiadau i'r ymddiriedolwyr.

Mae dyletswydd gan ymddiriedolwyr hefyd i gyflwyno Ffurflenni Blynyddol a chyfrifon yn dibynnu ar eu hincwm. Tynnwn sylw ar y Gofrestr i bob elusen sydd wedi methu â bodloni eu rhwymedigaethau adrodd (gweler Rhan 6 Galluogi a hunanddibyniaeth).

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr roi gwybod i ni hefyd pan fyddant yn dirwyn elusen i ben drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein berthnasol ac yna byddwn yn dileu'r elusen o'r Gofrestr. Os ydym yn credu bod elusen yn anweithgar, byddwn yn gofyn i'r ymddiriedolwyr am dystiolaeth i ddangos ei bod yn dal i weithredu ac os nad ydym yn ei derbyn, byddwn yn dileu'r elusen o'r Gofrestr. Cafodd cyfanswm o 4,800 o elusennau eu dileu o'r Gofrestr yn 2014-15.

Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn dod i'r casgliad nad oedd sefydliad byth wedi'i gyfansoddi'n gyfreithiol fel elusen ac felly dylid ei dileu o'r Gofrestr.

# 3 Ein gwaith yn y Tribiwnlys a'r Uchel Lys

## Awdurdodaeth y Comisiwn; y Tribiwnlys a'r Uchel Lys

Mae awdurdodaeth y Comisiwn yn cyfateb ag awdurdodaeth yr Uchel Lys Cyfiawnder (yr 'Uchel Lys'). Mae'r Comisiwn yn arfer ei bwerau ar gais yr elusen, y Twrnai Gwladol neu bobl eraill sydd â diddordeb. Mae hawl gan y Comisiwn i ddwyn achosion llys gerbron yr Uchel Lys, yn arbennig os oes modd diogelu neu adennill cronfeydd elusennol.

Mae hawl gan elusennau ac eraill i herio rhai o'n penderfyniadau yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) ('y Tribiwnlys'). Mae'r Tribiwnlys yn clywed apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau ac yn ystyried atgyfeiriadau gan y Twrnai Gwladol neu gan y Comisiwn ar bwyntiau'r gyfraith. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Tribiwnlys gael eu gwneud i'r Uwch Dribiwnlys. Mae statws cyfatebol gan yr Uwch Dribiwnlys i'r Uchel Lys, sy'n golygu y gall osod cynseiliau a gorfodi ei benderfyniadau ei hun a rhai'r Tribiwnlys.

## Ein gwaith yn y Tribiwnlys

Yn 2014-15, roeddem yn rhan o **32** o achosion yn amddiffyn ein penderfyniadau gerbron y Tribiwnlys. O'r rhain, daeth 25 achos i ben yn ystod 2014-15. Cafodd un o'n penderfyniadau eu gwrthdroi gan y Tribiwnlys (gweler yr astudiaeth achos ar 'Human Dignity Trust'). Cafodd y 24 achos arall eu penderfynu o blaid y Comisiwn neu eu tynnu'n ôl gan yr apelydd cyn i'r Tribiwnlys ddod i benderfyniad. Roedd saith achos yn parhau ar ddiwedd 2014-15.

Roedd y nifer fwyaf o heriau i benderfyniadau i gychwyn ymchwiliad statudol (wyth), wedi'i ddilyn gan Orchmynion am ddogfennau neu wybodaeth o dan Adran 52 o'r Ddeddf (pump). Mae rheolau arbennig gan y ddau fath o achos ynghylch awdurdodaeth y Tribiwnlys, a chroesawn benderfyniadau'r Tribiwnlys yn ystod y flwyddyn sydd wedi datblygu ac esbonio'r rheolau hyn (gweler yr astudiaeth achos 'Gorchmynion Adran 52').

Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu pwy sydd â'r hawl i herio ein penderfyniadau yn y Tribiwnlys. Mewn rhai achosion mae hyn yn fater syml: fel arfer gall elusennau, eu hymddiriedolwyr a phobl eraill sy'n destun ein cyfarwyddiadau neu orchmynion eu herio nhw. Mae categori ychwanegol o 'bobl a effeithir' gan ein penderfyniadau, a all fod yn fwy cymhleth. Cafodd chwe achos eu dwyn o dan y categori hwn yn 2014-15 ac wedi arwain at sylwadau defnyddiol gan y Tribiwnlys, a all gael eu hategu gan apêl i'r Uwch Dribiwnlys mewn achos y disgwylir iddo gael ei glywed yn 2015-16.

Rydym wedi cymryd camau yn 2014-15 i ddatrys mwy o achosion heb amser a chost gwrandawiad terfynol. Cafodd ugain o achosion eu datrys fel hyn:

(i) cafodd saith achos eu taflu allan ar sail weithdrefnol, er enghraifft, lle nad oedd gan yr apelydd y sail i ddwyn yr her gerbron y Tribiwnlys, neu nid oedd yr awdurdodaeth gan y Tribiwnlys i'w glywed

(ii) cafodd pedwar achos eu taflu allan oherwydd nid oedd disgwyl rhesymol iddynt lwyddo (er enghraifft, gweler yr astudiaeth achos 'Gorchmynion Adran 52')

(iii) cafodd naw achos eu tynnu'n ôl gan yr apelydd cyn i'r Tribiwnlys wneud penderfyniad, yn aml yn dilyn trafodaethau â'r Comisiwn

**Nodiadau achos**

**Gorchmynion Adran 52**

Yn y ddwy apêl gysylltiedig hyn, roedd dau o ymddiriedolwyr yr elusen Thrift Urban Housing wedi apelio at y Tribiwnlys yn erbyn gorchmynion y Comisiwn i gael gwybodaeth ganddynt o dan adran 52 o'r Ddeddf.

Gofynnodd y Comisiwn i'r Tribiwnlys daflu allan yr achosion, ar y sail nad oedd unrhyw ragolwg rhesymol ganddynt o lwyddo. Derbyniodd y Tribiwnlys gais y Comisiwn, a thaflu'r apeliadau allan gan ddefnyddio'r pŵer yn Rheol 8(3)(c) o'i Reolau Gweithdrefn.

Mae'r achosion yn enghreifftiau da o'r Tribiwnlys yn cymhwyso'r egwyddorion cyfreithiol perthnasol i ddod i'r casgliad bod rhagolygon yr apelyddion o lwyddo wedi'u cynnwys yn y categori 'mympwyol' yn hytrach na 'realistig' o achosion, ac felly dylent gael eu taflu allan.

Roedd yr achosion hefyd yn pwysleisio bod adran 320 o'r Ddeddf yn darparu meini prawf statudol penodol ar gyfer apeliadau i'r Tribiwnlys yn erbyn Gorchmynion Adran 52. Yn yr achosion hyn, roedd yr apelyddion wedi methu â chodi dadl mewn perthynas â'r meini prawf, gan olygu bod yr apeliadau wedi cael eu taflu allan.

I gael rhagor o fanylion, gweler penderfyniadau'r Tribiwnlys dyddiedig 17 Rhagfyr 2014, sydd ar gael ar ei wefan o dan yr enwau achos CA/2014/0019 *Kathleen Atherton v Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr* a CA/2014/0020 *Patrick Shakespeare v Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr*.

**Human Dignity Trust (HDT)**

Apeliodd HDT i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad y Comisiwn i wrthod ei gynnwys ar y Gofrestr.

Mae HDT wedi'i sefydlu i ddarparu neu gefnogi ymgyfreitha mewn gwladwriaethau dramor sy'n helpu gweithredwyr a dioddefwyr lleol sy'n ceisio herio cyfraith ddomestig sy'n troseddoli ymddygiad rhywiol yn y gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn groes i ymrwymiadau hawliau dynol a ragnodir gan y cyfansoddiad neu rwymedigaethau rhyngwladol. Dibenion HDT yw hyrwyddo hawliau dynol a hybu gweinyddiaeth gadarn o'r gyfraith.

Barn y Comisiwn oedd nad oedd y dibenion yn elusennol yn unig, oherwydd roedd ceisio newid y gyfraith a pholisi'r llywodraeth mewn gwladwriaethau dramor yn groes i'r egwyddor gyfreithiol yn erbyn elusennau yn cael dibenion gwleidyddol.

Derbyniodd HDT y gallai ei ddibenion gael ei fynegi'n fwy cywir, ond datganodd fod HDT, yn ei hanfod, yn cynnal y gyfraith yn wyneb goruchafiaeth yr ymrwymiadau cyfansoddiadol neu ryngwladol, a oedd yng nghyd-destun hyrwyddo hawliau dynol yn gyfreithlon ac yn elusennol.

Caniataodd y Tribiwnlys yr apêl gan gyfarwyddo'r Comisiwn i roi HDT ar y Gofrestr. Cadarnhaodd y penderfyniad bod HDT wedi'i sefydlu at y dibenion o:

(i) hyrwyddo a diogelu hawliau dynol fel yr amlinellir yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a chonfensiynau a datganiadau dilynol y Cenhedloedd Unedig.
(ii) hyrwyddo gweinyddiaeth gadarn o'r gyfraith

Mae'r penderfyniad yn cadarnhau bod y dibenion hyn yn elusennol oherwydd eu bod wedi'u cynnwys o fewn y disgrifiadau o ddibenion elusennol yn adrannau 3(1)(h) a 3(1)(m)(i) o'r Ddeddf a'u bod er budd y cyhoedd fel sy'n ofynnol gan adran 4 o'r Ddeddf. I gael rhagor o fanylion, gweler Barn y Tribiwnlys o 9 Gorffennaf 2014, sydd ar gael ar ei wefan o dan enw'r achos CA/2013/0013 *The Human Dignity Trust v Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr*.

## Ein gwaith yn yr Uchel Lys

Roeddem hefyd yn weithgar yn yr Uchel Lys yn ystod 2014-15. Am y tro cyntaf, defnyddiwyd ein pŵer i gael cyfarwyddiadau'r Uchel Lys ar gyflawni swyddogaethau rheolwr interim a benodwyd gennym.

### Nodiadau achos

**Cyfarwyddiadau'r Uchel Lys**

Eleni, cafwyd gorchymyn gan yr Uchel Lys yn rhoi cyfarwyddiadau i reolwr dros dro Dove Trust, yr elusen oedd yn rhedeg y wefan roi sydd bellach wedi darfod o'r enw *Charitygiving.*

Yn wyneb cymhlethdod yr elusen a'r materion cyfraith ymddiriedolaeth dan sylw, gofynnwyd i'r Llys benderfynu sut y gallai'r rheolwr dros dro ddosbarthu'r cronfeydd cyfyngedig yn gyfreithlon. Dyma'r tro cyntaf i ni ddefnyddio ein pŵer yn adran 78(5)(b) o'r Ddeddf i wneud cais i'r Llys am gyfarwyddiadau ynghylch rheolwr dros dro.

Yn ystod yr achos, trefnwyd i elusennau ac achosion da gael cyfle i fynegi eu barn. Roedd dros 80 wedi achub ar y cyfle, a chasglwyd a chyflwynwyd eu sylwadau i'r Llys. Roedd y rheolwr dros dro a'r cyn ymddiriedolwyr hefyd wedi'u cynrychioli yng ngwrandawiad yr Uchel Lys, a ddigwyddodd yng Ngorffennaf 2014.

Yng Ngorffennaf 2014, penderfynodd y barnwr y dylid dosbarthu'r cronfeydd oedd ar gael ymysg y buddiolwyr yn gymesur â'r symiau oedd yn ddyledus (o'r enw sail 'pari passu'.) Bydd hyn yn golygu bod yr elusennau a'r achosion da yn derbyn tua 35 ceiniog am bob punt a roddwyd.

Mae ein hymchwiliad statudol i Dove Trust yn parhau.

# 4 Hyrwyddo cydymffurfiaeth

**Mae hyrwyddo cydymffurfiaeth wedi'i nodi yn ein Datganiad o Ymagwedd Reoleiddio[2] a'n cynllun strategol fel un o flaenoriaethau'r Comisiwn. Nodwn risgiau yn erbyn ein fframwaith risg. Gall ein hymgysylltiad rheoleiddiol amrywio o roi cyngor rheoleiddiol i ddefnyddio pwerau cyfreithiol a chychwyn ymchwiliad statudol. Rydym yn gobeithio sicrhau pŵer newydd i roi rhybuddion i elusennau[3].**

## Risg, cydymffurfio ac ymchwilio

Mae methu â chydymffurfio a chamddefnydd mewn elusennau yn niweidio ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau unigol ac yn y sector elusennol ehangach. Felly mae'n hollbwysig ein bod yn gweithredu mewn modd cadarn ac amserol, yn enwedig mewn achosion lle y bu camddefnydd esgeulus, di-hid neu fwriadol ar ran yr ymddiriedolwyr. Weithiau, mae hyn yn golygu bod rhaid i ni arfer ein pwerau i ddatrys y broblem. Defnyddiwn ein pwerau'n gymesur yn ôl natur y mater, lefel y risg a'r effaith phosibl. Fodd bynnag, hyd yn oed os oes pryderon rheoleiddio gennym, efallai na fydd, mewn rhai achosion, yn gymesur i ni ymchwilio i'r elusen yn ffurfiol.

I gael gwybodaeth am ein gwaith ar atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf, gweler Rhan 6 Galluogi a hunanddibyniaeth.

### Canfod risg mewn elusennau

Mabwysiadwn ymagwedd seiliedig ar risg at ymgysylltiad rheoleiddiol. Mae hyn yn golygu ein bod yn targedu ein hadnoddau a'n hadnoddau ar y risgiau mwyaf i wasanaethau ac asedau elusennau a ble y teimlwn y bydd ein hymyrraeth yn cael yr effaith fwyaf.

Mae ein fframwaith risg yn esbonio ein proses asesu risg; mae'n golygu y gallwn nodi'r materion sy'n cael yr effaith fwyaf ac felly blaenoriaethu ein gwaith[4].

Rydym yn canolbwyntio ein hymgysylltiad un-i-un ar achosion lle y mae risgiau difrifol, gan gynnwys achosion lle mae'n rhaid i ni ddefnyddio ein pwerau cyfreithiol, a lle mae risgiau sy'n effeithio ar y sector cyfan neu ran o'r sector. Mae'n amlinellu'r tair risg strategol sy'n wynebu elusennau: twyll, troseddau ariannol a cham-drin ariannol; diogelu; ac atal terfysgaeth. Defnyddir y fframwaith risg hefyd fel man cychwyn ar gyfer ystyried a phenderfynu ar waith rhagweithiol, gan gynnwys datblygu polisi, canllawiau newydd ac ymgysylltu un-i-un rhagweithiol ag elusennau[5].

---

[2] Mae'r Datganiad o Ymagwedd Reoleiddio ar gael ar GOV.UK.

[3] Mae'r cynnig hwn i'w weld yn y Bil Elusennau (Diogelu a Buddsoddiad Cymdeithasol).

[4] Rydym wrthi'n adolygu ein fframwaith risg i adlewyrchu casgliadau ein gwaith achos cydymffurfio a phrofiad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i'n helpu i ymateb yn briodol i'r risgiau sy'n wynebu elusennau unigol a'r sector cyfan. Bwriadwn gyhoeddi'r fframwaith risg wedi'i ddiweddaru yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

[5] Rydym wrthi'n datblygu systemau sy'n ein helpu i ddefnyddio ein data yn well wrth asesu risg. Y nod yw gwella ein dealltwriaeth o'r risgiau thematig sy'n wynebu'r sector elusennol cyfan, a gwella ein hymateb i'r pryderon sy'n

Aseswn bob pryder am elusennau yn deg ac yn gyson fesul achos yn erbyn ein fframwaith risg.

> *"Mae gan [y Comisiwn] fwriad strategol clir o fod yn rheoleiddiwr cadarn. I gefnogi hyn, mae wedi datblygu model busnes lefel uchel credadwy a rhaglen trawsnewid i sicrhau'r newid angenrheidiol. Mae'n defnyddio ei bwerau statudol mwy i fynd i'r afael â chamddefnyddio statws elusennol. Mae hefyd yn gweithio i wella'r ffordd y mae'n asesu risg reoleiddiol ac yn defnyddio data."*
>
> **Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Ionawr 2015**

## Nodiadau achos

**The Melton Arts and Crafts Charity**

Roedd amcanion yr elusen yn cynnwys hyrwyddo addysg y cyhoedd, yn arbennig gwerthfawrogi cerddoriaeth, drama a'r celfyddydau, hyrwyddo addysg pobl ifanc sy'n hŷn nag oedran gadael ysgol statudol a darparu cyfleusterau ar gyfer adloniant a galwedigaethau amser hamdden eraill.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Cysylltodd Cyngor Dosbarth Gogledd Norfolk â ni yn Nhachwedd 2013 gan fynegi ei bryderon bod yr elusen yn cael ei defnyddio fel ffordd o osgoi talu trethi annomestig cenedlaethol mewn nifer o unedau diwydiannol.

**Y camau a gymerwyd:** Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o weithgarwch elusennol. Nid oedd unrhyw gofnodion o gyfarfodydd ymddiriedolwyr ar gael, nid oedd unrhyw gynllun busnes ar gael, a dim ond tystiolaeth o ddau benderfyniad syml a wnaed. Roedd cwestiynau ynghylch dilysrwydd prydlesi'r unedau ac a oedd gwrthdaro buddiannau wedi codi pan dderbyniwyd trosglwyddiad eiddo. Daethom i'r casgliad nad oedd yr ymddiriedolaeth yn gweithredu fel elusen.

**Effaith ein hymyrraeth:** Cafodd yr ymddiriedolaeth ei dileu o'r Gofrestr ar y sail nad oedd yn gweithredu. Rhoddwyd gwybod i Gyngor Dosbarth Gogledd Norfolk am ein penderfyniad er mwyn iddynt allu ystyried hyn wrth benderfynu gwrthod rhyddhad ardrethi neu beidio.

## Darparu cyngor ac arweiniad rheoleiddiol hanfodol

Pan fydd y risgiau wedi'u rheoli'n briodol ac mae'r ymddiriedolwyr yn barod ac yn gallu unioni materion, byddwn yn darparu cyngor rheoleiddio ac yn amlinellu'r camau rydym yn disgwyl i'r ymddiriedolwyr eu dilyn.

---

codi mewn elusennau unigol. Rydym yn defnyddio cyllid buddsoddi ychwanegol sydd ar gael gan y Trysorlys i fuddsoddi yn y dechnoleg a'r arbenigedd angenrheidiol.

## Achosion cydymffurfio

Yn yr achosion mwyaf difrifol, lle mae'r risgiau yn uwch neu lle mae'r ymddiriedolwyr yn dangos eu bod yn amharod neu ddim yn gallu ymateb yn briodol, mae'n bosib y bydd rhaid cyfeirio'r achos at weithwyr achos sydd wedi arbenigo mewn delio â phryderon difrifol mewn elusennau, neu eu cyfeirio ar gyfer monitro. Yn 2014-15, cwblhawyd **1,125** o achosion cydymffurfiaeth weithredol. Adroddwyd yn gyhoeddus ar ganlyniadau 25 o achosion cydymffurfiaeth weithredol. Y materion mwyaf cyffredin a gafodd eu hasesu mewn achosion cydymffurfiaeth yn 2014-15 oedd camreoli/camymddwyn, risg i fuddiolwyr, llywodraethu gwael, twyll, pryderon yn deillio o anghydfodau, a chamddefnyddio cronfeydd. Mae gwrthdaro buddiannau a materion cyfrifyddu hefyd yn codi'n aml yn ein gwaith achos.

## Ymchwiliadau statudol

Mewn achosion difrifol a risg uchel, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys ein tair risg strategol (gweler tudalen 19), byddwn yn cychwyn ymchwiliad ffurfiol, sef ymchwiliad statudol. Mae ymchwiliadau statudol yn caniatáu i ni ddefnyddio'r ystod lawn o'n pwerau gorfodi cyfreithiol. Yn 2014-15 cychwynnwyd **103** o ymchwiliadau statudol a chwblhawyd **51** o ymchwiliadau statudol. Nid yw cychwyn ymchwiliad yn golygu o reidrwydd ein bod wedi penderfynu bod drwgweithredu wedi digwydd, ond weithiau dyma'r unig ffordd y gallwn gael ac asesu'r holl dystiolaeth sydd ar gael neu weithredu i ddiogel ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau. Y pryderon mwyaf cyffredin a aseswyd mewn ymchwiliadau statudol a gychwynnwyd yn 2014-15 oedd materion cyfrifyddu, pryderon am gamreoli neu gamymddwyn, gwyngalchu arian honedig neu amheus, ffug elusennau, a chamddefnyddio cronfeydd (gweler tudalen 27 am ragor o wybodaeth am ein defnydd o bwerau eleni).

### Cynnydd yn nifer yr ymchwiliadau statudol a gychwynnwyd ers 2011-12



## Adrodd am ddigwyddiadau difrifol

Mae digwyddiadau difrifol yn codi mewn elusennau. Pan fyddant yn codi dylent gael eu hadrodd i ni cyn gynted â bod elusennau yn ymwybodol ohonynt. Digwyddiadau difrifol yw'r rhai sy'n arwain at golli neu niweidio asedau neu eiddo elusen, niwed i fuddiolwyr neu niwed i enw da'r elusen. Mae'n hollbwysig bod ymddiriedolwyr yn adrodd am ddigwyddiadau difrifol er mwyn i ni wybod eu bod nhw'n gweithredu'n gyfrifol wrth ddelio â'r broblem. Mae adroddiadau digwyddiadau difrifol hefyd yn ffordd bwysig i ni ddatblygu ein dealltwriaeth o'r mathau o risg y mae'r sector elusennol yn eu hwynebu a thargedu ein hadnoddau ac ymyraethau yn unol â hynny. Eleni, roedd elusennau wedi adrodd am **2,129** o ddigwyddiadau difrifol. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers y llynedd, pan gafodd 1,282 eu hadrodd i ni[6]. Credwn fod hyn yn ganlyniad i'n hymgyrch i hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg ymddiriedolwyr o'u cyfrifoldeb i adrodd am ddigwyddiadau difrifol[7]. Er ein bod yn hapus i weld cynnydd yn yr achosion sy'n cael eu hadrodd, mae ein gwaith achos yn parhau i ddangos gormod o enghreifftiau lle mae elusennau wedi profi digwyddiadau difrifol ond heb eu hadrodd i ni.

## Chwythu'r chwiban

Gall gweithwyr elusennau godi pryderon chwythu'r chwiban o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 sy'n diogelu pobl sy'n adrodd am ddrwgweithredu er budd y cyhoedd rhag cael eu trin yn andwyol neu eu fictimeiddio. Mae adroddiadau chwythu'r chwiban a dderbyniwn hefyd yn cynnwys pryderon sy'n cael eu codi o dan y Ddeddf gan gyfrifwyr, archwilwyr ariannol neu archwilwyr annibynnol. Eleni, derbyniwyd **114** o adroddiadau chwythu'r chwiban. Mae pob adroddiad chwythu'r chwiban yn cael ei asesu'n ofalus gan dîm arbenigol, yn unol â'n fframwaith risg, i benderfynu a oes rôl reoleiddio gennym.

## Nodiadau achos

### Achos chwythu'r chwiban

Mae gan elusen amcanion i hyrwyddo addysg a'i phrif weithgarwch yw rhedeg canolfan gymunedol. Derbyniwyd adroddiad chwythu'r chwiban gan archwiliwr ariannol yr elusen, gyda manylion am nifer o bryderon difrifol.

Er enghraifft, tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod yr elusen wedi gwneud benthyciadau i'w is-gwmni masnachu heb ddilyn y prosesau priodol a'i bod wedi methu â chadw cofnodion digonol o gyllid neu gyfarfodydd bwrdd. Roedd yr archwiliwr hefyd yn bryderus am ddefnydd yr elusen o sieciau wedi'u llofnodi ymlaen llaw - ymarfer sy'n rhoi cyllid elusen mewn perygl difrifol ac yn arwydd o lywodraethu gwael.

Roedd ffynhonnell a natur y pryderon yn golygu bod y risgiau yn uchel a bod

[6] Mae rhai elusennau yn adrodd am fwy nag un digwyddiad mewn un adroddiad.
[7] Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi rhybudd a thynnu sylw at y gofyniad yn ein cylchlythyr i ymddiriedolwyr (gweler Rhan 5 Galluogi am ragor o wybodaeth ynghylch y rhybuddion a gyhoeddwyd eleni ac am ein cylchlythyr, Newyddion y CE).

angen ein hymgysylltiad rheoleiddiol ni ar frys. Rhoddwyd cynllun gweithredu manwl i'r ymddiriedolwyr gyda'r dyddiadau cau ar gyfer gweithredu'r gwahanol gamau.

Ar adeg ysgrifennu, mae'r achos yn parhau.

**Hinckley Concordia**

Mae'r elusen yn darparu cyfleusterau adloniant a hamdden yn Theatr Concordia yn Hinckley, Swydd Gaerlŷr.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Derbyniwyd gwybodaeth gan Heddlu Swydd Gaerlŷr a Chyngor Sir Swydd Gaerlŷr oedd yn codi pryderon difrifol ynghylch rheolaeth yr elusen, yn arbennig diogelu buddiolwyr.

**Y camau a gymerwyd:** Cychwynnwyd ymchwiliad statudol yn gyflym i ymchwilio i'r pryderon.

Ychydig yn ddiweddarach, cyhoeddodd Heddlu Swydd Gaerlŷr a Chyngor Sir Swydd Gaerlŷr ymchwiliad ar y cyd i nifer o unigolion oedd yn gysylltiedig â'r elusen. Cafodd trwyddedau'r elusen i gynnal cynyrchiadau yn cynnwys plant eu hatal dros dro nes bod adolygiad brys yn cael ei gynnal. Roedd cadeirydd yr ymddiriedolwyr ar y pryd wedi sefyll i lawr yn Chwefror 2015; ymddiswyddodd y cyn gadeirydd a dau ymddiriedolwr arall wedi hynny fel ymddiriedolwyr ym Mawrth 2015.

**Beth wnaethom ni ei ddarganfod:** Daethom i wybod bod y ddau gyn ymddiriedolwr yn gwybod bod rhywun â dedfrydau troseddol oedd yn ei wneud yn anaddas o safbwynt diogelu wedi cael ei gyflogi yn y theatr. Roedd un o'r cyn ymddiriedolwyr hyn hefyd wedi methu â delio'n briodol ac yn gyfrifol â honiadau o ymddygiad amhriodol gan aelod o staff. Daethom i'r casgliad bod y methiannau hyn yn gyfystyr â chamymddwyn a/neu gamreoli wrth weinyddu'r elusen gan y ddau unigolyn hyn. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr ymddiriedolwyr eraill wedi methu yn eu dyletswyddau.

Roedd diffygion hefyd ym mholisi diogelu plant yr elusen oedd yn weithredol y pryd hynny.

**Effaith ein hymyrraeth:** Ymgysylltwyd â'r bwrdd ymddiriedolwyr newydd oedd wedi cydweithredu â ni a dangos ymrwymiad i wella dulliau llywodraethu'r elusen, yn enwedig sut roedd yn diogelu plant. Cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Hinckley a Bosworth drwydded weithredu newydd i'r theatr elusennol.

**Helping Hands for the Needy**

Ymddiriedolwr elusen lleddfu effeithiau trychineb yn derbyn buddion heb awdurdod.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Cychwynnwyd ymchwiliad statudol yn 2010 ar ôl i archwiliad o wybodaeth ariannol yr elusen ddangos bod cronfeydd wedi cael eu camddefnyddio.

**Y camau a gymerwyd:** Cafodd un o'r ymddiriedolwyr ei atal o'i swydd ar unwaith, sef yr ymddiriedolwr oedd yn gweithredu fel y Prif Swyddog Gweithredol dros dro; fe ymddiswyddodd yn dilyn hyn cyn i ni allu ei ddiswyddo'n barhaol o'i swydd fel ymddiriedolwr. Cymerwyd camau hefyd i gyfyngu cyfrifon banc yr elusen er mwyn sicrhau nad yw ymddiriedolwyr yn gallu tynnu arian heb ein caniatâd.

**Beth wnaethom ni ei ddarganfod:** Nid oedd yr ymddiriedolwyr y pryd hynny yn cynnal rheolaethau ariannol priodol dros incwm a gwariant, yn cadw cofnodion priodol neu'n cynhyrchu cyfrifon ariannol blynyddol. Roedd y diffyg llywodraethu digonol a goruchwylio hyn wedi arwain at gamddefnyddio miloedd o bunnoedd o gronfeydd elusennol. Derbyniodd un o'r ymddiriedolwyr daliadau heb awdurdod gan yr elusen, yn groes i'r ymddiriedolaeth, gan gynnwys taliadau am ddirwyon parcio a goryrru, ac am waith adeiladu i'w eiddo preifat.

Daethom i'r casgliad y bu diffygion difrifol yng ngweinyddiad a llywodraethu'r elusen oedd yn gyfystyr â chamymddwyn gan ymddiriedolwyr yr elusen ar y pryd. Mae un o'r ymddiriedolwyr hynny yn anghytuno â chasgliadau'r Comisiwn.

**Effaith ein hymyrraeth:** Ym Mawrth 2011, cafodd yr elusen ei rhoi mewn diddymiad gwirfoddol.

Yn dilyn atgyfeiriad gan y diddymwr a thrwy ymgynghori â ni roedd yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau wedi cychwyn ei hymchwiliad ei hun i ymddygiad yr ymddiriedolwyr a'r cyfarwyddwyr, gan arwain at anghymhwyso dau ymddiriedolwr fel cyfarwyddwr cwmni. O ganlyniad, maent wedi'u hanghymhwyso hefyd rhag bod yn ymddiriedolwr elusen.

DS - roeddem ni wedi bwriadu aros nes bod yr elusen wedi cael ei diddymu gan y diddymwr cyn dod â'n hymchwiliad i ben a chyhoeddi adroddiad. Fodd bynnag, mae'r broses honno yn cymryd yn hwy na'r disgwyl oherwydd camau adennill sy'n parhau. Felly penderfynwyd dod â'r ymchwiliad safonol i ben a chyhoeddi adroddiad yn Ionawr 2015.

*"Mae elusennau eraill wedi diolch i ni am y camau roeddem ni wedi'u cymryd yn yr achos hwn. Ond mae'r achos hwn hefyd yn pwysleisio'r gwendidau yn ein pwerau cyfreithiol cyfredol. Gallwn ddiswyddo unigolion o swydd ymddiriedolwr penodol yn unig; nid oes unrhyw bŵer gennym i anghymhwyso unigolion rhag gweithredu fel ymddiriedolwr a'u hatal rhag gweithredu mewn swyddi ymddiriedolwr eraill. Mae'r adroddiad gan y Cyd-bwyllgor ynghylch y Bil Elusennau (Diogelu a Buddsoddiad Cymdeithasol) yn cefnogi'r cynigion i roi mwy o bwerau i ni, gan gynnwys dileu'r mannau gwan sy'n gysylltiedig ag anghymhwyso ymddiriedolwyr a fydd yn cynnig modd i ni reoleiddio'r sector a mynd i'r afael â chamddefnydd difrifol yn fwy effeithiol. Rydym wedi ymgyrchu ers amser am hyn."*

**Amy Spiller, Uwch Ymchwiliwr**

## Ymagwedd fwy rhagweithiol a chadarn

Trwy gydol 2014-15, rydym wedi parhau i gryfhau cyflymdra a thrylwyredd ein hymagwedd at fynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli difrifol mewn elusennau.

*"Mae'r Comisiwn wedi cryfhau ei safiad pan nad yw elusen yn cydymffurfio â gorchymyn i ddarparu gwybodaeth. Mewn rhai achosion, mae methiant o'r fath yn cael ei ystyried yn dystiolaeth o gamymddwyn neu gamreoli."*

**Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Ionawr 2015**

### Cronfa Ddata Twyll Genedlaethol

Yn Ebrill 2014, ymunwyd a Cifas, y gwasanaeth atal twyll. Mae Cronfa Ddata Twyll Genedlaethol Cifas yn golygu y gallwn gyrchu gwybodaeth am bobl sydd wedi ymwneud â thwyll ac mae'n ein helpu i adnabod pobl y gallai eu cysylltiad ag elusennau i fod yn destun pryder. Ers hynny rydym wedi asesu miloedd o bosibiliadau a amlygwyd yn y Gronfa Ddata Twyll Genedlaethol, gan nodi 200 o achosion sy'n gofyn am graffu pellach.

### Nodiadau achos

**Tarfu ar ffug elusen a sefydlwyd gan dwyllwr**

**Achos yn ymwneud â defnyddio data Cifas**

Roedd Cronfa Ddata Twyll Genedlaethol Cifas wedi cofnodi pryderon twyll am unigolyn oedd yn gysylltiedig ag elusen, yr honnwyd ei bod wedi'i sefydlu i helpu pobl ag anhwylderau'r gwaed. Roedd gwiriadau pellach wedi sefydlu bod yr unigolyn, oedd yn ymddiriedolwr yr elusen, wedi cael dedfrydau niferus am dwyll a lladrad, oedd yn eu hanghymwyso rhag gwasanaethu fel ymddiriedolwr. Mae gwasanaethu fel ymddiriedolwr tra'ch bod wedi'ch anghymhwyso yn drosedd. Cafodd ein tystiolaeth ei hanfon at yr heddlu.

Yn y cyfamser, gofynnwyd am ddogfennau pellach gan ymddiriedolwyr eraill yr elusen, gan gynnwys cyfrifon rheoli llawn a chrynodeb o'i gweithgarwch. Ni chafwyd unrhyw ymateb. Roedd gwiriadau pellach yn awgrymu y gallai enwau'r

ymddiriedolwyr eraill fod yn ffug enwau a ddefnyddiwyd gan yr ymddiriedolwr cyntaf. Daethom i'r casgliad fod yr elusen wedi'i sefydlu fel ffug elusen at ddibenion troseddol a chafodd yr elusen ei dileu o'r Gofrestr.

*"Mae'r Comisiwn yn gwneud defnydd gwell o ddata."*

**Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Ionawr 2015**

**Ymchwiliad dosbarth i elusennau sydd heb gyflwyno cyfrifon**

Ers Medi 2013, rydym wedi bod yn ymchwilio i elusennau sydd heb fodloni eu gofynion adrodd mwy nag unwaith fel rhan o ymchwiliad statudol dosbarth. Ers cychwyn yr ymchwiliad dosbarth, mae **74** o elusennau wedi cael eu hymchwilio; mae'r ymchwiliad wedi arwain at gyfanswm o **£60 miliwn** o gronfeydd elusennol yn cael eu cyfrif amdanynt. Mae **50** o elusennau wedi bod yn destun ymchwiliad dosbarth eleni.

**Nodiadau achos**

**The Hope Trust**

**Am yr elusen:** Mae amcanion yr elusen yn cynnwys hyrwyddo ymchwil i ganserau gynaecolegol.

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Methodd yr elusen â chyflwyno adroddiadau blynyddol a chyfrifon a Ffurflenni Blynyddol am y blynyddoedd ariannol yn diweddu 2009, 2010, 2011 a 2012. Anfonwyd sawl nodyn atgoffa awtomatig i'r elusen am yr angen i gyflwyno dogfennau cyfrifyddu blynyddol.

**Y camau a gymerwyd:** Gofynnwyd i'r ymddiriedolwyr gyflwyno'r dogfennau oedd yn eisiau gan y dyddiad cau terfynol. Anfonodd yr elusen ychydig o wybodaeth ariannol cyn y dyddiad cau, ond roedd rhai blynyddoedd ariannol yn eisiau o hyd, ac felly daeth yr elusen yn destun ymchwiliad dosbarth. Defnyddiwyd ein pwerau o dan adran 84 o'r Ddeddf i'w gwneud hi'n ofynnol i gyflwyno'r wybodaeth oedd yn ofynnol.

**Beth wnaethom ni ei ddarganfod:** Roedd yr ymddiriedolwyr elusen heb fodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol i ffeilio gwybodaeth gyfrifyddu gyda ni. Roedd camreoli a chamymddwyn yng ngweinyddiad yr elusen ac roedd eu dyletswyddau cyfreithiol heb eu cyflawni.

Dywedodd yr ymddiriedolwyr mai'r rheswm dros fethiant yr elusen i ffeilio oedd *"nid oedd ganddi fynediad i'r ystod lawn o gofnodion oedd yn ofynnol er mwyn iddi allu paratoi ei chyfrifon yn briodol.".* Nid yw hon yn esgus teg.

**Effaith ein gwaith:** O ganlyniad i'r ymchwiliad, cafodd yr holl setiau o gyfrifon oedd heb eu derbyn eu ffeilio ac o ganlyniad mae £5,000 o incwm elusennol a dros £100,000 o wariant elusennol bellach wedi'u cyfrif amdanynt yn dryloyw ac yn gyhoeddus ar y Gofrestr.

## Defnydd mwy effeithiol o bwerau

Rydym wedi gwneud mwy o ddefnydd o'n pwerau i gasglu gwybodaeth yn ystod ymchwiliadau statudol. Mae'r rhain yn cynnwys y pŵer i'w gwneud hi'n ofynnol i ymddiriedolwyr, neu drydydd partïon fel banciau, i roi dogfennau neu wybodaeth i ni am elusennau.

Rydym ni hefyd yn gwneud mwy o ddefnydd o'n pwerau cydymffurfio: yn 2014-15, roeddem ni wedi diogelu **£44.6 miliwn** mewn asedau elusennol yn uniongyrchol, yn bennaf trwy weithredu i rewi cyfrifon banc elusennau neu drwy gyfyngu trafodion.

*"Mae'r Comisiwn yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'i bwerau."*
**Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Ionawr 2015**

## Penodi rheolwyr dros dro

Un o'r ffyrdd y gallwn ni ddatrys diffyg cydymffurfio a chamreoli yw trwy ddefnyddio ein pŵer i benodi rheolwr dros dro i weinyddu elusen. Gallwn ni benodi rheolwr dros dro ar ôl cychwyn ymchwiliad statudol os ydym o'r farn bod camymddwyn neu gamreoli wedi bod neu os yw gwneud hynny yn angenrheidiol neu mae'n ddymunol er mwyn diogelu eiddo'r elusen.

Mae penodi rheolwr dros dro yn gam dros dro ac amddiffynnol y byddwn yn ei gymryd dim ond ar ôl ystyried yn ofalus atebion posibl eraill i'r problemau a wynebir gan elusen.

Eleni, penodwyd **pedwar** rheolwr dros dro; roedd **11** rheolwr dros dro yn eu lle ar 31 Mawrth 2015.

Mae'n rhaid i gostau rheolwr dros dro gael eu talu gan yr elusen dan sylw. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, pan fydd er lles y cyhoedd i wneud hynny, y gallwn ni indemnio costau rheolwr dros dro os nad oes digon o gronfeydd yn yr elusen i dalu'r costau. Eleni, rydym wedi parhau i indemnio costau dau reolwr dros dro (y rhai sydd yn eu lle yn Cup Trust a Dove Trust).

Rydym yn cadw rhestr o ymarferwyr cymeradwy a phan fyddwn yn penodi rheolwr dros dro byddwn yn cynnal ymarfer i sicrhau bod yr unigolyn a'r cwmni mwyaf priodol yn cael eu dewis. Eleni, agorwyd rhestr ar gyfer ymgeiswyr newydd; o ganlyniad i'r broses hon ychwanegwyd 18 o ddarparwyr newydd i'r rhestr cyn gymeradwyo.

**Cynnydd yn ein defnydd o bwerau cyfreithiol ers 2011-12**




# Ein rôl wrth sicrhau adennill cronfeydd elusennol

Rydym yn cymryd o ddifrif achosion lle mae eiddo elusen yn cael ei golli o ganlyniad i ddrwgweithredu difrifol gan ymddiriedolwyr neu eraill sy'n ymwneud â'r elusen.

Mae'r prif gyfrifoldeb gan ymddiriedolwyr i adfer eiddo a gollwyd i'w helusen. Dylent ystyried pa gamau i'w cymryd i adfer yr eiddo er lles gorau'r elusen, gan gynnwys trwy geisio cyngor cyfreithiol ac ystyried y rhagolygon economaidd o lwyddiant ac adfer i'r elusen. Efallai y bydd angen ein cydsyniad neu gyngor ar elusennau. Fodd bynnag, os nad yw ymddiriedolwyr yn gallu neu'n amharod i gymryd camau perthnasol, mae'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ac mae tor-ymddiriedaeth difrifol wedi bod, ni fyddwn yn oedi i ddefnyddio ein pwerau i sicrhau bod cronfeydd a gollwyd yn cael eu hadennill. Mewn achosion priodol, ac eithriadol, byddwn yn ystyried dwyn achos cyfreithiol er lles y cyhoedd - gyda chydsyniad y Twrnai Gwladol - i adennill cronfeydd a gollwyd i'r elusen.

Nid oes rhaid i ni gychwyn ymgyfreitha bob amser i sicrhau bod cronfeydd elusen yn cael eu dychwelyd. Fel y dangosa'r astudiaeth achos ganlynol, weithiau mae ein hymyrraeth yn arwain at ymddiriedolwyr yn cytuno i ad-dalu cronfeydd i'r elusen.

**Nodiadau achos**

**Ein hymyrraeth yn sicrhau dychwelyd £100,000 i elusen**

Cychwynnwyd ymchwiliad i Life Changing Ministries International Church South Cheshire Trust i ymchwilio i nifer o bryderon, gan gynnwys y posibilrwydd o dderbyn budd preifat heb awdurdod gan ymddiriedolwyr a rheoli gwrthdaro buddiannau.

Fel rhan o'n hymchwiliad, edrychwyd ar y taliadau a wnaed i ddau ymddiriedolwr (gŵr a gwraig) o £72,000, a thaliad o dros £28,000 i weddnewid croglofft mewn eiddo roedd y ddau ymddiriedolwr yn berchen arno. Dywedodd yr ymddiriedolwyr wrth yr ymchwiliad bod yr arian ar gyfer y treuliau a ddaeth i ran yr ymddiriedolwyr wrth redeg yr elusen. Fodd bynnag, daethom i'r casgliad nad oedd y taliadau wedi'u hawdurdodi ac nid oedd gwrthdaro buddiannau wedi cael ei reoli. O ganlyniad i'n hymgysylltiad ni, a heb yr angen i droi ag ymgyfreitha, roedd yr ymddiriedolwyr wedi ad-dalu'r arian i'r elusen.

**Rhybuddion rheoleiddio**

Mae rhybuddion rheoleiddio yn offer cydymffurfio pwysig sy'n ein helpu i godi ymwybyddiaeth ymysg elusennau neu'r cyhoedd o'r risgiau sy'n wynebu rhai mathau o elusennau neu ffydd gyhoeddus mewn elusennau. Yn 2014-15, cyhoeddwyd **chwe** rhybudd rheoleiddio, gan gynnwys ar dwyll sieciau, diogelu cronfeydd elusennol, ac adrodd am ddigwyddiadau difrifol. Cafodd ein rhybuddion eu gweld ar-lein dros **12,000** o weithiau yn 2014-15.

**Monitro elusennau**

Fel y cydnabu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, rydym wedi cymryd camau i gryfhau'r gwaith o fonitro elusennau sy'n achos o bryder. Gall monitro gynnwys: ymchwil desg, gohebu neu gyfweld ag ymddiriedolwyr; ymweld â safle'r elusen i wneud yn siŵr eu bod nhw wedi cadw eu haddewidion neu gymryd camau fel y bo angen; ac archwilio cofnodion ariannol yr elusen. Mewn rhai achosion, gall hyn arwain at roi cyngor ac arweiniad rheoleiddiol i ymddiriedolwyr elusen, a sicrhau bod y cyngor wedi cael ei ddilyn. Mewn achosion eraill, gall olygu cychwyn achos cydymffurfio neu, yn yr achosion mwyaf difrifol, ymchwiliad statudol. Weithiau, bydd ymddiriedolwyr yn cydnabod nad ydynt yn gallu rhedeg elusen yn unol â gofynion cyfreithiol, ac yn cytuno mai'r ffordd orau o weithredu yw dirwyn yr elusen i ben.

Rydym yn paratoi mwy o gynlluniau gweithredu ac yn fwy cyson ac yn gadarn wrth wirio bod ymddiriedolwyr wedi cwblhau'r cynlluniau gweithredu neu wneud yr hyn a ddisgwyliwyd ganddynt.

Mae gwaith dilynol yn cael ei wneud gan bob un o'n timau gwaith achos, ond mae gennym dîm monitro penodedig hefyd sy'n canolbwyntio ar fonitro rhagweithiol. Er enghraifft, mae'r tîm monitro yn cydweithio'n agos â'r tîm cofrestru i ddilyn i fyny'r achosion risg uwch a phryderon neu gwestiynu sydd wedi codi yn ystod y broses gofrestru (gweler tudalen 13 am astudiaeth achos ar eu gwaith). Yn 2014-15, cwblhaodd y tîm monitro **393** o achosion.

Yn ogystal â gweithio ar gofrestriadau, roedd y gwaith rhagweithiol a wnaed gan y tîm yn cynnwys:

- ymgysylltu ag elusennau oedd wedi adrodd am ddigwyddiadau difrifol o'r blaen, ceisio sicrwydd eu bod nhw wedi gweithredu ar y cyngor a roddwyd iddynt
- ymgysylltu ag elusennau oedd wedi datgan dim incwm a gwariant ar eu Ffurflen Flynyddol, gwirio bod yr wybodaeth ariannol a ddatganwyd yn gywir
- gweithredu ar **35** o atgyfeiriadau yn ymwneud â gwybodaeth Cifas (gweler tudalen 25 am wybodaeth ar Cifas)
- gweithio gyda'r Bwrdd Safonau Codi Arian a gweithredwyr rheilffordd i gytuno ar broses ymgeisio safonedig newydd i elusennau sydd am godi arian mewn gorsafoedd trenau (gweler Rhan 6 Galluogi a hunanddibyniaeth)
- gweithio gyda nifer o archfarchnadoedd ac adwerthwyr mawr ar fabwysiadu gweithdrefnau cadarn tebyg ar gyfer elusennau sydd am godi arian yn eu siopau

## Dadansoddi gwybodaeth am elusennau sy'n destun ymchwiliadau statudol neu achosion cydymffurfio

Eleni, dechreuom ni gynhyrchu dadansoddiad rheolaidd o'r elusennau oedd yn destun ymchwiliadau statudol neu achosion cydymffurfio.

Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei dorri i lawr yn ôl yr wybodaeth a gyflwynwyd gan elusennau yn eu Ffurflenni Blynyddol, gan gynnwys yn ôl diben (dosbarthiad), grŵp buddiolwyr, incwm, ac oedran yr elusennau (blynyddoedd ers cofrestru). Mae hyn yn arbennig o bwysig i ni wneud yn sgil y pryderon a godwyd am y canfyddiad bod elusennau sydd â chysylltiadau â chymunedau Mwslimaidd wedi'u gorgynrychioli yn ein gwaith achos (gweler Rhan 6 Galluogi a hunanddibyniaeth). Rydym yn hyderus nad oes unrhyw ragfarn yn y ffordd rydym yn asesu pryderon neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch cychwyn achosion cydymffurfio neu ymchwiliadau. Mae pob penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud drwy gymhwyso ein fframwaith risg. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn yn helpu i roi sicrwydd ychwanegol nad oes unrhyw feysydd o orgynrychioli neu dangynrychioli arwyddocaol yn yr elusennau y mae ymchwiliadau neu achosion cydymffurfio yn cael eu cychwyn iddynt. Byddwn yn parhau i ddadansoddi ein data fel hyn ac adrodd ar y canlyniad.

## Ymateb i bryderon am weithgarwch gwleidyddol mewn elusennau

Yn ôl ein harferion, roeddem wedi monitro'n ofalus weithgarwch gwleidyddol elusennau wrth i ni agosáu at etholiad cyffredinol 2015. Sefydlwyd system trin achosion ymateb cyflym a oedd yn golygu ein bod yn gallu dilyn i fyny y pryderon a godwyd am weithgarwch elusennau yn gyflym ac yn gyson, lleihau unrhyw ansicrwydd yn ystod y cyfnod a hefyd rhoi hyder i elusennau a'r cyhoedd am yr hyn sydd, a'r hyn nad yw'n dderbyniol. Roedd hyn yn arbennig o bwysig oherwydd ein hansicrwydd cyffredinol ynghylch effaith Deddf Tryloywder Lobio, Ymgyrchu Amhleidiol a Gweinyddu Undebau Llafur, gan dynnu mwy o sylw at weithgareddau elusennau yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn cyhoeddi adolygiad o'r casgliadau o'r gwaith achos hwn i roi sicrwydd i'r cyhoedd a helpu elusennau i ddysgu'r gwersi o'r pryderon a gododd yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad.

> *"Wrth feddwl am berfformiad llwyddiannus y Comisiwn Elusennau, rydym wedi cyfeirio at y 160,000 o elusennau a reoleiddir, y staff o 300 o bobl a'r gyllideb o £20 miliwn y flwyddyn. Pe bai'r Arglwyddi bonheddig yn edrych ar draws y maes rheoleiddio ac yn ceisio cael hyd i reoleiddiwr arall sy'n gwneud ymdrech mor lew ar wneud yr hyn y mae'n ofynnol iddo ei wneud fel y mae'r Comisiwn Elusennau, mae'n bosib y byddant yn edrych yn bell cyn cael hyd i un."*
>
> **Yr Arglwydd Eccles, yn siarad yn ystod yr ail ddarlleniad o'r Bil**

## Y Bil Elusennau (Diogelu a Buddsoddiad Cymdeithasol ('y Bil')

Mae rhai gwendidau sylfaenol yn ein hamrywiaeth gyfredol o bwerau sy'n cyfyngu ein gallu i atal a rhwystro drwgweithredu, ac rydym wedi dadlau ers amser am yr angen i'r mannau gwan hyn gael eu dileu. Mae'r cynigion a amlinellir yn y Bil yn cynnwys darpariaethau i:

- anghymhwyso unigolion rhag bod yn ymddiriedolwyr a rhag dal swyddi eraill o bŵer os eu hymddygiad yn golygu eu bod yn anaddas
- estyn y mathau o ddedfrydau sy'n arwain at anghymhwyso awtomatig rhag dal swydd ymddiriedolwr i gynnwys dedfrydau ar gyfer terfysgaeth a gwyngalchu arian
- rhoi pŵer i ni gyfarwyddo ymddiriedolwyr i gau eu helusen mewn rhai amgylchiadau
- rhoi pŵer i ni atal ymddiriedolwyr rhag ymddiswyddo er mwyn osgoi camau anghymhwyso

Os caiff ei droi'n ddeddf, byddai'r pwerau newydd yn ein helpu i atal a delio'n fwy effeithiol ac effeithlon â phryderon difrifol mewn elusennau. Er ein bod yn disgwyl i'r pwerau newydd effeithio ar leiafrif bach yn unig o elusennau yn uniongyrchol, bydd pob elusen yn elwa o'r cynnydd yn ffydd a hyder y cyhoedd a fydd yn deillio o reoleiddio mwy effeithio.

*"Mae'n hollbwysig sicrhau bod hyder gan y cyhoedd yn null rheoleiddio'r sector elusennol os ydynt am barhau â'r traddodiad Prydeinig o roi'n hael i elusennau. Credwn y gall y Bil gyfrannu at hyn."*

**Yr Arglwydd Hope, Cadeirydd y Cyd-bwyllgor ar y Bil**

*"Bydd y pwerau newydd yn ein helpu i hyrwyddo ffydd gyhoeddus mewn elusennau a sicrhau bod elusennau'n parhau i chwarae eu rôl hollbwysig yn ein cymdeithas."*

**William Shawcross**

Mae'r Bil hefyd yn adlewyrchu argymhellion Comisiwn y Gyfraith sef rhoi pŵer statudol i elusen anghorfforedig ac ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig i wneud buddsoddiadau cymdeithasol (h.y. buddsoddiadau sy'n hyrwyddo dibenion elusen yn ogystal ag arwain at enillion ariannol). Bydd hyn yn dileu unrhyw amheuon ynghylch gallu ymddiriedolwyr i ymwneud â buddsoddiad cymdeithasol ac amlinellu eu dyletswyddau wrth wneud hynny.

**Gweithio gydag asiantaethau eraill**

Fel rheoleiddiwr sifil, mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio gyda rheoleiddwyr ac asiantaethau eraill i adnabod a mynd i'r afael â phryderon mewn elusennau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod pob asiantaeth yn gallu gwneud cynnydd cyflym ac effeithiol wrth fynd i'r afael â materion o bryder ac mae'n osgoi dyblygu diangen.

Er enghraifft, rydym yn cydweithio'n agos â rheoleiddwyr elusennau sydd wedi'u hesgusodi i'w helpu i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo cydymffurfiaeth elusennau sydd wedi'u hesgusodi â'r gyfraith elusennau a gweithio'n gyfochrog os yw elusennau o fewn ein hawdurdodaeth dan sylw hefyd.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cydnabod ein bod yn cyfnewid mwy o wybodaeth ag awdurdodau cyhoeddus eraill. Yn 2014-15, roeddem ni wedi gwneud a derbyn **1,949** o ddatgeliadau, o'i gymharu â 1,746 yn 2013-14 a 1,539 yn 2012-13. Roedd y rhan fwyaf o'r datgeliadau hyn o'r Comisiwn i asiantaethau eraill; rydym yn cydweithio'n agos â'n partneriaid i'w hannog i gynyddu nifer y datgeliadau y maent yn eu gwneud i ni.




Rydym yn mabwysiadu ymagwedd gymesur at reoleiddio; dim ond cyfran fach o elusennau oedd yn destun ymchwiliad neu achos cydymffurfio yn 2014-15.

# 5 Hyrwyddo atebolrwydd

**Gwyddom o'n gwaith ymchwil ffydd a hyder cyhoeddus bod atebolrwydd ymysg y ffactorau pwysicaf sy'n ysgogi ffydd gyhoeddus mewn elusennau. Felly mae'n hollbwysig bod ymddiriedolwyr yn ffeilio eu cyfrifon blynyddol mewn pryd a'u bod yn cymryd eu gofynion adrodd o ddifrif. Mae adrodd da yn golygu adrodd hanes yr elusen mewn ffordd y mae ei chefnogwyr a'i buddiolwyr yn ei ddeall.**

Mae ein Datganiad o Ymagwedd Reoleiddio a chynllun strategol yn esbonio mai un o'n blaenoriaethau yw hyrwyddo atebolrwydd elusennau. Gwnawn hyn drwy orfodi dyddiadau cau ffeilio, gosod y gofynion adrodd lleiaf ar gyfer y dogfennau sy'n cael eu ffeilio, a gwneud gwybodaeth allweddol am elusennau ar gael ac yn chwiliadwy ar-lein. Rydym hefyd yn annog ymddiriedolwyr i fynd ymhellach na'r gofynion adrodd ffurfiol lleiaf i ddangos atebolrwydd i'w rhoddwyr, eu cefnogwyr a'u buddiolwyr ac i'r cyhoedd.

## Cydymffurfiaeth elusennau â'r gofynion

Mae'n ofynnol i bob elusen gydag incwm dros £10,000 i gwblhau Ffurflen Flynyddol; mae'n ofynnol i elusennau gydag incwm dros £25,000 i gyflwyno cyfrifon blynyddol hefyd.

Eleni, rydym wedi sicrhau cynnydd graddol parhaol yng nghanran yr elusennau sy'n ffeilio'r wybodaeth flynyddol ofynnol mewn pryd. Yn 2014-15, roedd **87%** o'r elusennau yr oedd yn ofynnol iddynt gwblhau Ffurflen Flynyddol wedi gwneud hynny, i fyny o 75% yn 2007-8. Cyfrifwyd am **99%** o incwm y sector yn y cyfrifon a ffeiliwyd yn 2014-15.

### Cyfran yr elusennau sy'n ffeilio gwybodaeth mewn pryd



## Adolygu'r Ffurflen Flynyddol

Bob blwyddyn, byddwn yn adolygu'r Ffurflen Flynyddol i wneud yn siŵr ein bod yn parhau i gasglu'r wybodaeth y mae ei hangen arnom i sicrhau atebolrwydd a rheoleiddio elusennau yn effeithiol, heb roi baich gormodol ar elusennau. Ymgynghorwn ar unrhyw newidiadau arfaethedig.

Mae'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu yn 2015 yn cynnwys tri chwestiwn newydd, a gafodd gefnogaeth gyffredinol yn yr ymgynghoriad:

- yn y cyfnod adrodd, faint o incwm oeddech chi wedi'i dderbyn gan:
    - gontractau llywodraeth ganolog neu leol i ddarparu gwasanaethau
    - grantiau gan lywodraeth ganolog neu leol?
- oes gan eich elusen bolisi ar dalu ei staff?
- ydy'ch elusen wedi adolygu ei rheolaethau ariannol yn ystod y cyfnod adrodd?

> *"Mae archwaeth y cyhoedd am wybodaeth ynghylch elusennau yn tyfu'n barhaus, ac yn ffordd allweddol i sefydliadau barhau i fod yn atebol i'w rhoddwyr a rhoddwyr grantiau yw ffeilio eu gwybodaeth flynyddol mewn pryd. Os yw elusen yn dryloyw ynghylch ei hincwm, ei gwariant a'i gweithgareddau, yna gall noddwyr deimlo'n hyderus mewn gweithgareddau rhoi grantiau a gall rhoddwyr barhau i roi â hyder i'r achos o'u dewis."*
>
> **Philip Howard, Rheolwr Grantiau, Clothworkers' Foundation**

## Cyfrifon elusennau

Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau (SORP Elusennau) yw'r 'beibl' cyfrifyddu ar gyfer elusennau mwy. Mae'n amlinellu sut y dylai elusennau baratoi eu cyfrifon ar sail croniadau. Y Comisiwn, ynghyd â Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban, OSCR, yw corff llunio SORP Elusennau. Eleni, oherwydd newidiadau yn safonau cyfrifyddu'r DU, cafodd y SORP ei ddisodli gan ddau SORP, gan roi dewis i'r rhan fwyaf o elusennau ynghylch pa SORP i'w fabwysiadu[8].

Yn ogystal â chraffu ar gyfrifon elusennau unigol yng nghyd-destun gwaith achos, adolygwn gyfrifon elusennau yn rhagweithiol yn ôl thema i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion adrodd a hyrwyddo adrodd o safon uchel. Eleni cwblhawyd pedwar adolygiad o gyfrifon thematig: adrodd am fudd cyhoeddus; ansawdd cyffredinol cyfrifon; diffygion cynllun pensiwn; ac elusennau gyda rhwymedigaethau cyfredol net.

---

[8] Roedd angen SORP newydd ar ôl i'r Egwyddorion Cyfrifyddu Cymeradwy Cyffredinol DU-Iwerddon (GAAP) ddod i rym ar 1 Ionawr 2015. O ganlyniad, ar gyfer cyfnodau adrodd yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015, bydd dewis gan y rhan fwyaf o elusennau i baratoi cyfrifon yn ôl naill ai'r Safon Adrodd Ariannol ar gyfer Endidau Bach (FRSSE) neu'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102).
Gan edrych i'r dyfodol, oherwydd Cyfarwyddeb Gyfrifyddu gan Undeb Ewropeaidd yn trawsffurfio adrodd cwmnïau bach, ni fydd FRSSE ar gael mwyach. Mae'r corff llunio SORP ar y cyd (y Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban) newydd lansio ymgynghoriad i geisio barn elusennau ar newidiadau arfaethedig i adlewyrchu darpariaethau'r Gyfarwyddeb.

Yn 2014-15, craffwyd ar **1,097** o setiau o gyfrifon; cafodd **455** eu harchwilio fel rhan o'n gwaith achos cydymffurfio ac edrychwyd ar **642** ohonynt fel rhan o'n rhaglen o adolygiadau rhagweithiol. Cyfanswm incwm yr elusennau a adolygwyd oedd **£3.9 biliwn**.

Cyhoeddwyd casgliadau ein pedwar adolygiad thematig o gyfrifon. Cynhaliwyd yr adolygiadau ar gyfer cyfrifon wedi'u ffeilio ar gyfer y ddwy flynedd ariannol a ddaeth i ben 2012 a 2013.

Roedd casgliadau pob adolygiad yn dangos gwendidau yn nealltwriaeth ymddiriedolwyr o ofynion adrodd sylfaenol a'u cydymffurfiaeth â'r gofynion hynny, ac arferion adrodd da[9].

## Adrodd am fudd cyhoeddus

Roedd ein hadolygiad o adrodd am fudd cyhoeddus elusennau wedi dangos bod y rhan fwyaf o gyfrifon a adolygwyd heb fodloni'r gofyniad adrodd am fudd cyhoeddus yn llawn. Dadansoddwyd tua 220 o setiau o gyfrifon am y ddwy flynedd ariannol a darganfuwyd mai dim ond 27% o gyfrifon yn sampl 2012 a dim ond 35% o'r rhai yn sampl 2013 oedd yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol yn llawn. Mae budd cyhoeddus wrth wraidd y diffiniad o elusen ac roeddem yn siomedig gan y casgliadau oedd yn awgrymu cydymffurfiaeth adrodd wael. Fodd bynnag, roedd yr elusennau gorau yn adrodd ar yr effaith ar eu buddiolwyr ac roedd sawl un o'r adroddiadau a adolygwyd yn adlewyrchu adrodd ardderchog am fudd cyhoeddus.

## Ansawdd cyffredinol cyfrifon

Roedd yr adolygiad o ansawdd cyffredinol Adroddiadau Blynyddol Ymddiriedolwyr a Chyfrifon yn ystyried pa mor ddefnyddiol oedd y cyfrifon i'r defnyddwyr, yn ogystal â pha mor agos roeddent yn cydymffurfio â gofynion adrodd cyfreithiol sylfaenol. Aseswyd bod 68% o'r cyfrifon yn sampl 2013 a 54% o'r cyfrifon yn sampl 2012 o ansawdd derbyniol.

## Elusennau â diffygion cynllun pensiwn

Roedd yr adolygiad hwn wedi samplo ar hap gyfrifon 97 o elusennau gydag incwm dros £500,000 gyda chyfrifon yn dangos diffyg cynllun pensiwn. Gwelwyd mai dim ond 31 oedd yn cynnwys esboniad o oblygiadau ariannol y diffyg a chynlluniau'r ymddiriedolwyr ar gyfer datrys y mater. Roedd yr adolygiad hefyd wedi dangos bod gan saith o'r 97 o elusennau ddiffygion oedd yn fwy na'u cronfeydd anghyfyngedig a dros 20% o'u hincwm blynyddol. Gall diffygion pensiwn beri risg difrifol o bosibl i elusennau. Atgoffwyd elusennau y dylent fod yn defnyddio eu Hadroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr i esbonio i'w rhoddwyr a'u buddiolwyr y goblygiadau ariannol a sut y maent yn datrys y broblem.

---

[9] Mae codi ymwybyddiaeth ymddiriedolwyr o'r safonau hyn yn rhan bwysig o'n gwaith ymgysylltu ehangach. Gweler Rhan 6 Ymgysylltu a hunanddibyniaeth am ragor o wybodaeth.

### Elusennau gyda rhwymedigaethau cyfredol net

Roedd yr adolygiad o'r 98 o elusennau yr oedd eu cyfrifon wedi cofnodi rhwymedigaethau cyfredol net (hynny yw, mae eu dyledion cyfredol yn fwy na'u hasedau cyfredol) yn dangos bod bron 50% (42 o'r 98) heb esbonio i gyllidwyr a rhanddeiliaid sut roeddent yn rheoli'r risg honno. Gwelwyd bod y rhan fwyaf o'r elusennau a adolygwyd yn cyllido eu rhwymedigaethau naill ai trwy incwm gohiriedig - taliadau yn cael eu cyfrif amdanynt fel pe baent yn cael eu derbyn cyn i'r gwasanaeth gael ei ddarparu - neu drwy fenthyciadau banc a gorddrafftiau.

## Fersiwn newydd o'r offeryn chwilio elusennau ar-lein

Mae ein hofferyn chwilio elusennau ar-lein yn cynnig modd i'r cyhoedd chwilio'r Gofrestr i gael gwybodaeth awdurdodol am elusennau. Edrychwyd ar fanylion elusennau ar-lein dros **7.5 miliwn** o weithiau yn 2014-15[10]. Er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael hyd i'r wybodaeth am elusennau y gwyddom sy'n sail i ffydd a hyder cyhoeddus, lansiwyd fersiwn newydd o'r offeryn chwilio ar-lein ym Mawrth 2015. Lansiwyd y fersiwn newydd fel fersiwn 'treialu' neu 'beta' i annog sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Mae'r offer chwilio presennol yn parhau i fod ar gael hyd nes iddo gael ei ddisodli gan y fersiwn terfynol o'r offeryn newydd yn nes ymlaen y flwyddyn hon.

Mae'r offeryn newydd hwn yn cynnwys nifer o welliannau[11], gan gynnwys:

- gwybodaeth allweddol, megis incwm a gwariant a manylion cyswllt elusennau, yn fwy amlwg
- haws gweld yr offeryn ar ffonau symudol a llechi
- opsiynau chwilio a hidlo yn fwy ystyriol o'r defnyddiwr
- opsiwn newydd i lawrlwytho chwiliadau wedi'u hidlo fel ffeil CSV ('gwerth wedi'i wahanu â choma')

> *"Mae'r offeryn chwilio elusennau ar-lein newydd yn ei gwneud hi'n haws i ganfod, deall a lawrlwytho gwybodaeth am elusennau drwy wasgu botwm. Mae arddangos gwybodaeth fel hyn yn ffordd allweddol o gynyddu tryloywder mewn elusennau, ac mae'r gwelliannau hyn yn golygu y gall y cyhoedd barhau i roi â hyder."*
>
> **Tris Lumley, Cyfarwyddwr Datblygu, New Philanthropy Capital**

---

[10] Mae hyn yn cynnwys cyfanswm yr edrychiadau o'r tudalennau trosolwg o gofnodion offer chwilio elusennau ar-lein. At ei gilydd, cafodd tudalennau yn ymwneud â gwybodaeth am elusennau unigol eu gweld dros 16 miliwn o weithiau.

[11] Roeddem wedi parhau i ddatblygu'r offeryn, a chyn bo hir byddwn yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol o Ffurflenni Blynyddol elusennau, gan gynnwys a yw elusen:

- yn talu ei hymddiriedolwyr
- yn codi arian gan y cyhoedd ac os felly a yw'n defnyddio cyfranogwr masnachol
- yn aelod o FRSB ac felly wedi ymrwymo i safonau codi arian uchel
- ag is-gwmni masnachu

## Ein hymrwymiad i reoleiddio cymesur

Fel yr esbonnir yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio ein pwerau rheoleiddio yn fwy aml ac wedi ymgyrchu'n fwy effeithiol am ddeddfwriaeth i roi sylw i wendidau yn ein pwerau cyfredol. Mae'n bwysig pwysleisio y bydd arfer ein pwerau yn effeithio ar gyfran fach o elusennau yn uniongyrchol yn unig ond bydd pob elusen yn elwa o wella ffydd a hyder.

Rydym yn parhau i sicrhau nad yw ein hymagwedd reoleiddio yn rhoi baich gormodol ar elusennau ac eleni rydym wedi parhau i gydweithio â Swyddfa'r Cabinet ar ffyrdd o leihau'r baich ar ymddiriedolwyr. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar gynigion i wneud newidiadau i archwilio ariannol ac archwilio annibynnol. Yn dilyn ymgynghoriad, cafodd sawl newid eu cyflwyno o 31 Mawrth 2015, gan gynnwys cynnydd yn y trothwy archwilio incwm sylfaenol o £500,000 i £1,000,000.

# 6 Galluogi a hunanddibyniaeth

**Fel y nodwyd yn y Cyflwyniad, mae ein rôl alluogi yn un o'n blaenoriaethau strategol ac yn elfen graidd o reoleiddio. Mae'n golygu y gallwn atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf trwy helpu ymddiriedolwyr i redeg eu helusennau yn effeithiol yn unol â'u dyletswyddau. Mae hefyd yn ein galluogi i helpu elusennau i wneud defnydd effeithiol o'u hadnoddau.**

Rydym wedi perfformio ein rôl alluogi mewn tri phrif ffordd eleni: drwy waith achos er mwyn galluogi elusennau i, er enghraifft, ddiweddaru eu hamcanion neu geisio caniatâd i waredu ar eiddo; trwy ddarparu gwasanaethau ar-lein i elusennau a thrwy arweiniad ac ymgysylltu i helpu ymddiriedolwyr i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o ran rheoli eu helusennau.

## Gwaith achos galluogi

Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith gydag elusennau, yn ôl maint o waith, yn cynnwys defnyddio ein pwerau i helpu elusennau i weithredu'n fwy effeithiol. Mae ein hymyrraeth wedi'i hysgogi'n aml gan elusennau sy'n cysylltu â ni i gael awdurdodaeth ar gyfer y camau a fydd yn eu helpu i ymateb i newid mewn amgylchiadau.

Mae pŵer gennym i benodi ymddiriedolwyr, rhoi mathau arbennig o ganiatâd a gwneud cydsyniadau cyfreithiol i newid neu ddisodli dogfen lywodraethol elusen (trwy gynlluniau). Mae ein hymyrraeth yn helpu elusennau i weithredu'n fwy effeithiol gan ddiogelu budd cyhoeddus mewn elusennau yr un pryd.

Mae llawer o'r gwaith hwn yn waith syml a didrafferth ac mae'n cael ei gwblhau gan ein timau Cyswllt Cyntaf a oedd wedi delio â dros **57,000** o alwadau a dros **55,000** o negeseuon e-bost eleni; cafodd dros **94%** o'r cysylltiadau hyn eu datrys gan dimau Cyswllt Cyntaf. Cafodd **2,588** o ganiatâd eu rhoi gan dimau Cyswllt Cyntaf eleni.

Os yw'r materion yn fwy cymhleth neu risg uchel, rydym yn delio â nhw yn fwy ffurfiol fel achosion gweithrediadau. Cychwynnodd y timau gweithrediadau **1,169** o achosion caniatâd a chwblhawyd **1,425** o achosion yn ystod y flwyddyn.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd y gwaith sydd ar y gweill fel rhan o'r rhaglen trawsnewid yn ein helpu i awtomeiddio cyfran sylweddol o'n gwaith achos risg is, er mwyn i ni allu darparu gwasanaeth effeithlon a didrafferth i elusennau a blaenoriaethu ein hadnoddau ar achosion risg uwch.

Rhaid cael ein caniatâd hefyd cyn y gall elusen ymwneud ag achos llys. Cyn i ni gytuno i roi caniatâd, byddwn yn gofyn i'r ymddiriedolwyr ddangos eu bod nhw wedi ystyried dewisiadau eraill i ymgyfreitha costus, fel cyfryngu a chyd-drafod.

*"Mae'r rhan fwyaf o'n rhyngweithio ag elusennau yn ymwneud â'u helpu i newid a moderneiddio er mwyn iddynt allu parau i wasanaethau lles gorau eu buddiolwyr. Mae'n bwysig iawn ein bod ni fel rheoleiddiwr yn darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol pan fydd angen ein caniatâd neu ein hawdurdod ni ar elusennau. Rydym yn cael adborth cadarnhaol yn rheolaidd gan yr elusennau rydym wedi'u helpu."*

**Jan Provost, Rheolwr Gwaith Achos, Cyswllt Cyntaf**

**Nodiadau achos**

**Cynghori elusen gadwraeth fawr ar newid ei hamcanion**

Mae amcanion yr elusen wedi'u cyfyngu i gynnal gwarchodfeydd natur sy'n bodoli yn y DU, caffael gwarchodfeydd newydd yn y DU ac annog eraill i wneud gwaith tebyg mewn gwledydd eraill yn Ewrop. Gofynnodd yr ymddiriedolwyr a allai'r cyfyngiad gael ei godi i alluogi'r elusen i wneud gweithgareddau ehangach i hyrwyddo cadwraeth rhai mathau o fywyd gwyllt yn y DU ac Ewrop.

Nodwyd bod y gymynrodd, a oedd yn rhoi ei chronfeydd i'r elusen yn wreiddiol, yn cydnabod y gallai'r elusen ar ryw adeg yn y dyfodol ddymuno gwneud cais i ni i godi'r cyfyngiad. Roedd y gymynrodd yn cadarnhau y byddai hynny'n dderbyniol, ar yr amod bod yr ymddiriedolwyr wedi'u bodloni bod digon o gronfeydd ganddynt i gynnal a diogelu eu gwarchodfeydd natur presennol.

Felly gwnaethom ni gadarnhau os oedd yr ymddiriedolwyr yn fodlon y gallent fodloni'r amod, byddem yn ystyried cais i godi'r cyfyngiadau oedd yn gysylltiedig â'r rhodd. Rydym hefyd wedi cynghori ar adran 62(1) o'r Ddeddf sy'n amlinellu'r amgylchiadau pan fydd dibenion rhodd elusennol yn gallu cael eu newid er mwyn ei gymhwyso ar gyfer diben tebyg. Esboniwyd y byddai'n rhaid i ni wneud cynllun i godi'r cyfyngiadau a newid y dibenion gwreiddiol. Ers hynny mae'r elusen wedi dweud y bydd yn gwneud cais ffurfiol i ni am gynllun.

**Darparu caniatâd i drosglwyddo cronfeydd elusen**

Roedd elusen (elusen eglwysig yng Ngogledd Lloegr) wedi cysylltu â ni i ofyn am gyngor ar drosglwyddo cronfeydd o ymddiriedolaeth anghorfforedig i SCE newydd (Sefydliad Corfforedig Elusennol). Cynghorwyd gan fod y trosglwyddiad arfaethedig yn cynnwys rhwymedigaethau yn ogystal ag asedau ac yn cynnwys dau sefydliad oedd â rhai ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr yn gyffredin, roedd gwrthdaro buddiannau yr oedd naill ai angen ei reoli (gan gworwm o ymddiriedolwyr heb wrthdaro buddiannau) neu wedi'i awdurdodi gennym ni. Esboniwyd bod rhaid cael ein hawdurdod ni a byddai'n cael ei roi:

- os oedd digon o ymddiriedolwyr heb wrthdaro buddiannau
- os oedd y trosglwyddiad arfaethedig yn hyrwyddo dibenion yr elusen sy'n trosglwyddo
- nid yw'r rhwymedigaethau yn rhy o feichus yn yr amgylchiadau i'r elusen sy'n derbyn y trosglwyddiad

Roedd yr elusen yn gallu bodloni'r amodau hyn. Felly gwnaethpwyd Gorchymyn

Adran 105 i awdurdodi trosglwyddo asedau a rhwymedigaethau, gan alluogi'r elusen i barhau i ddarparu gwasanaeth trwy'r SCE newydd.

**Rhoi caniatâd i dalu ymddiriedolwr**

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Roedd elusen (elusen iechyd meddwl) am dalu ei chadeirydd a'i darpar gadeirydd am wasanaethu yn y rôl. Mae dogfen lywodraeth yr elusen yn cynnwys pŵer i dalu ymddiriedolwyr mewn 'achosion eithriadol' ond dim ond gyda'n cydsyniad ysgrifenedig ni ymlaen llaw. Felly fe wnaeth gais i ni am ganiatâd.

**Y camau a gymerwyd:** Aseswyd y cais yn ofalus a daethom i'r casgliad nad oedd yr elusen wedi darparu digon o wybodaeth i'n galluogi i ddod i'r casgliad ar unwaith ei fod yn amlwg er lles gorau buddiolwyr yr elusen i dalu'r cadeirydd.

Cynghorwyd yr elusen pa wybodaeth y byddai ei hangen arnom i wneud penderfyniad ac roedd yr elusen wedi cyflwyno rhagor o wybodaeth. Esboniodd amgylchiadau newidiol yr elusen, yn fwyaf arbennig y cynnydd mawr ym maint a chymhlethdod yr elusen. Esboniodd fod rôl y cadeirydd wedi newid yn sylweddol, a bod gofynion y cadeirydd presennol yn llawer mwy na'r hyn a fu'n achos pan gafodd ei recriwtio. Roedd yr elusen hefyd wedi darparu gwybodaeth am allu'r cadeirydd, gan esbonio pam ei fod er lles gorau'r elusen i'w gadw am ddwy flynedd arall, hyd nes y gellid dod o hyd i olynydd addas.

**Beth wnaethom ni ei ddarganfod:** Roedd yr elusen wedi gwneud achos darbwyllol dros roi tâl cymedrol i'w chadeirydd presennol a gwnaethom ni gytuno i awdurdodi hyn. Fodd bynnag, nid oedd yr ymddiriedolwyr wedi ein bodloni o'r angen i dalu pob cadeirydd yn y dyfodol. Dywedodd yr elusen y byddai'n anodd iddi recriwtio cadeirydd o safon debyg yn y dyfodol oni bai bod y rôl yn un oedd yn cael tâl. Ond nid oedd yn gallu cynnig tystiolaeth ar gyfer hyn oherwydd nid oedd wedi ymgymryd ag ymarfer recriwtio gan nad oedd swydd wag wedi codi eto.

**Effaith ein gwaith:** Roedd ein hymyrraeth wedi sicrhau bod yr elusen yn gallu cadw cadeirydd effeithiol, a pharhau i weithredu'n effeithiol er lles gorau ei buddiolwyr. Roeddem ni'n gallu diogelu budd cyhoeddus mewn elusennau trwy sicrhau bod y penderfyniad i dalu'r cadeirydd er lles gorau'r elusen.

**Band Aid Charitable Trust**

**Ein rheswm dros ymyrryd:** Ym mis Tachwedd roedd ymddiriedolwyr y Band Aid Charitable Trust wedi cysylltu â ni, yr elusen a gododd filiynau o bunnoedd yn y 1980au gyda'r gân 'Do they know it's Christmas'. Roedd yr elusen am ryddhau fersiwn newydd o'r gân i godi arian i helpu yn y frwydr yn erbyn Ebola yng Ngorllewin Affrica. Roeddent yn meddwl y byddai'n rhaid iddynt sefydlu elusen newydd oherwydd roedd eu hamcanion wedi'u cyfyngu i leddfu newyn a thlodi yn Ethiopia.

**Y camau a gymerwyd:** Aseswyd cais yr elusen yn sgil yr argyfwng yng Ngorllewin Affrica. Daethom i'r casgliad er mwyn arbed amser ac arian i'r elusen, gallem ni wneud cynllun i ychwanegu diben ychwanegol o 'leddfu salwch' at

amcanion yr elusen. Roeddem ni wedi sicrhau bod eiddo gwreiddiol yr elusen ac unrhyw incwm yn codi ohono wedi'i glustnodi ar gyfer yr amcanion gwreiddiol.

**Effaith ein gwaith:** Drwy gwblhau ein gwaith o fewn tri diwrnod, roeddem ni wedi sicrhau nad oedd cynlluniau'r elusen yn cael eu hoedi oherwydd rhwystrau gweinyddol. Roedd record yr elusen wedi codi £1 miliwn ar ei ddiwrnod cyntaf, ac ers hynny mae wedi codi £2.8 miliwn ar gyfer elusennau sy'n helpu yn y frwydr yn erbyn Ebola.

## Gwella gwasanaethau ar-lein ar gyfer elusennau

### Mynediad ar-lein ar gyfer cynghorwyr elusennau

Yn Ionawr 2015, lansiwyd gwasanaeth digidol sy'n caniatáu i gyfrifydd elusen neu asiant enwebedig arall gyflwyno cyfrifon blynyddol ar ran ei elusen sy'n gleient. Crëwyd y cyfleuster newydd mewn ymateb i alwadau gan elusennau i'w gwneud hi'n haws i'w cynghorwyr ffeilio cyfrifon pan fyddant wedi'u harchwilio ac yn barod. Yn y gorffennol, roedd rhaid i elusennau ffeilio eu cyfrifon eu hunain; gwelwyd bod hyn yn aml yn arwain at elusennau yn methu â'u hanfon, oherwydd camddealltwriaeth ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu hanfon atom. Fodd bynnag, dyletswydd ymddiriedolwyr elusen o hyd yw sicrhau bod cyfrifon eu helusen yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i ni o fewn y dyddiad cau. Erbyn diwedd 2014-15, mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddefnyddio i ffeilio cyfrifon **119** o weithiau.

### Symud i lwyfan GOV.UK

Yn ystod y flwyddyn, roedd ein presenoldeb ar y we wedi derbyn tua **330,000** o ymwelwyr bob mis. Ym Medi 2014, mudwyd i lwyfan y llywodraeth GOV.UK, fel rhan o symudiad mwy i symleiddio holl wasanaethau digidol y llywodraeth. Mae ein gwaith dadansoddol hyd yma yn dangos bod nifer uchel o ddefnyddwyr yn gallu cael hyd i'r hyn y maent yn chwilio amdano, a bod rhai darnau o ganllawiau craidd yn cael eu cyrchu'n fwy aml erbyn hyn nag yr oeddent trwy ein hen wefan. Rydym yn gweithio'n uniongyrchol â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i roi sylw i adborth gwsmeriaid sy'n awgrymu bod rhai pobl yn ei chael hi'n fwy anodd i bori ein cynnwys a gwasanaethau ers i ni symud i GOV.UK. Rydym hefyd yn datblygu strategaeth cyfathrebu digidol sy'n ceisio sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth di-dor ar draws pob sianel, lle mae elusennau'n gallu hyrwyddo hunanwasanaeth a chyrchu ein gwasanaethau trwy amrywiaeth o wahanol ddyfeisiau.

## Helpu ymddiriedolwyr i wneud eu gorau glas: canllawiau ar-lein a gweithio mewn partneriaeth

Mae mwy na miliwn o ymddiriedolwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn wirfoddolwyr sy'n cydbwyso cyfrifoldebau swydd ymddiriedolwr â'u hymrwymiadau i'r teulu a'u swyddi. Felly mae'n hollbwysig ein bod yn darparu canllawiau sy'n helpu ymddiriedolwyr i ddeall eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a bod y canllawiau hyn yn hygyrch ac yn hawdd i'w dilyn.

## Diwygio canllawiau craidd: Yr ymddiriedolwr hanfodol

Eleni, ymgynghorwyd ar fersiwn diwygiedig o'n canllaw craidd i ymddiriedolwyr, Yr ymddiriedolwr hanfodol. Mae'r ymddiriedolwr hanfodol yn disgrifio dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr mewn ffordd y gall pob ymddiriedolwr, gan gynnwys y rhai sy'n newydd i'r rôl, ei deall. Mae'r diwygiadau i'n canllawiau yn ceisio gwneud y canllawiau hyd yn oed yn gliriach ynghylch beth mae'r gyfraith a'r Comisiwn yn ei ddisgwyl gan ymddiriedolwyr.

Roeddem yn hapus iawn â'r lefel ymgysylltu; cafodd y canllawiau drafft eu gweld dros **21,000** o weithiau ar GOV.UK, derbyniwyd **114** o ymatebion ysgrifenedig a chynhaliwyd sesiynau bord gron gyda dros 30 o gynrychiolwyr a sylwebyddion elusennol allweddol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymddiriedolwyr a ymatebodd fod y fersiwn newydd yn welliant a bod yr esboniadau o ddyletswyddau ymddiriedolwyr yn glir. Ond roedd rhai ymatebwyr, cynghorwyr yn bennaf, yn feirniadol o dôn y canllawiau gan gwestiynu'r ffordd roedd y drafft yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng argymhellion y 'dylai' ymddiriedolwyr eu dilyn a'r gofynion y mae'n 'rhaid' iddynt gydymffurfio â nhw.

Bydd fersiwn diwygiedig o'r canllawiau, gan ystyried yr ymatebion a gafwyd, yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

> *"Roedd popeth yn y brif ran mor glir ag y gallai fod ac roeddwn i'n teimlo ei fod yn gwneud popeth i'w weld yn syml a ddim yn rhy frawychus a'n gwneud ni'n ymwybodol o'r goblygiadau cyfreithiol."*
>
> **Ymateb i'r ymgynghoriad CC3**
> **gan ymddiriedolwr elusen fach trwy'r e-bost**

## Cyrraedd ymddiriedolwyr

Her allweddol i ni yw cyrraedd ymddiriedolwyr yn y lle cyntaf, a'u gwneud nhw'n ymwybodol bod ein canllawiau yn bodoli a'u hannog i'w ddefnyddio pan fyddant yn gwneud penderfyniadau pwysig.

Eleni, dechreuwyd cyhoeddi ein cylchlythyr chwarterol, Newyddion y CE, i bob ymddiriedolwr roedd gennym gyfeiriad e-bost ar ei gyfer (dros 220,000). Cyn hynny roedd y cylchlythyr yn cael ei anfon i un gohebydd a enwir yn unig ym mhob elusen. Mae Newyddion y Comisiwn Elusennau yn gyfrwng allweddol ar gyfer cyrraedd ymddiriedolwyr yn uniongyrchol gyda diweddariadau ar ganllawiau, nodiadau atgoffa am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau ac, os yw'n berthnasol, gwybodaeth am y Comisiwn. Mae'r cylchlythyr yn gryno ac yn gynnil, gan gydnabod bod amser ymddiriedolwyr yn brin.

## Ein darpariaeth ddigidol

Rydym yn estyn ac yn gwella ein defnydd o offer digidol i hyrwyddo ymddiriedolaeth effeithiol. Mae hyn yn cynnwys sesiynau holi ac ateb ar-lein a gwybodaeth graffig i esbonio'r prif negeseuon, yn ogystal â hyrwyddo canllawiau pwysig i ymddiriedolwyr. Mae ein hymgyrchoedd digidol misol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddyletswyddau ymddiriedolwyr penodol a gofynion y gyfraith elusennau eisoes wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer sy'n edrych ar ein canllawiau allweddol. Yn ystod mis o ganolbwyntio ar dwyll yn ystod Mawrth 2015, roedd y nifer a edrychodd ar ein canllawiau ar risg wedi cynyddu gan 1,200% o'i gymharu â'r mis blaenorol, ac roedd y nifer a edrychodd ar ein pecyn cymorth cydymffurfio wedi cynyddu gan 53%.

## Cyfarfodydd cyhoeddus a gwaith allgymorth

Rydym yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a gweithdai allgymorth yng Nghymru a Lloegr sy'n ceisio helpu ymddiriedolwyr i ddeall eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau a rhoi cyfle i elusennau ofyn cwestiynau i aelodau a staff y Comisiwn. Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n cael eu rhedeg gan elusennau a sefydliadau allanol eraill.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gynnal Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol (CCB) sy'n rhoi cyfle i elusennau a'r cyhoedd glywed gan ein bwrdd ac uwch weithredwyr, a gofyn cwestiynau i ni am ein gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Cynhaliwyd CCB eleni yn Llundain ym Medi 2014. Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan ein Cadeirydd ac roedd yn cynnwys diweddariad ar weithgareddau'r Comisiwn gan y prif weithredwr, sesiwn holi ac ateb a darlith gan yr hanesydd Dr Frank Prochaska. Roedd darlith Dr Prochaska's, The State of Charity, yn cynnig persbectif hanesyddol ar agweddau'r llywodraeth a chymdeithas tuag at elusennau ac elusengarwch. Roedd 150 o gynrychiolwyr yn y cyfarfod, gan gynnwys ymddiriedolwyr elusen, cynghorwyr, Seneddwyr a newyddiadurwyr.

Mae rhai digwyddiadau, fel ein CCB, a thri chyfarfod cyhoeddus chwarterol arall yn agored i bob elusen yn yr ardal leol, ac yn eang o ran y pynciau a drafodir. Mae eraill wedi'u teilwra i grwpiau arbennig o elusennau, fel elusennau sy'n gweithio'n rhyngwladol, neu elusennau ffydd. Mae'r digwyddiadau hyn hefyd yn gyfle i'n swyddogion wrando ar elusennau a deall yn well y cyd-destunau a'r amgylcheddau y maent yn gweithio ynddynt.

Yn 2014-15, cynhaliwyd neu mynychwyd dros **50** o ddigwyddiadau a chyfarfodydd allgymorth, gan gyrraedd **2,000** o gynrychiolwyr o **1,000** o elusennau.

Rydym yn ystyried ffyrdd cost-effeithiol o ymestyn cwmpas ein digwyddiadau ar gyfer elusennau, gan gynnwys darlledu byw, podlediadau clywedol a fideos wedi'u golygu.

## Ymestyn allan i elusennau sydd â chysylltiadau â chymunedau Mwslimaidd

Rydym wedi cymryd rhan mewn sawl digwyddiad gydag elusennau sy'n gysylltiedig â chymunedau Mwslimaidd yn y DU, sydd wedi rhoi cyfle i ni roi sicrwydd yn dilyn y pryderon a godwyd gyda ni am ganfyddiadau o ragfarn tuag at elusennau o'r fath yng ngwaith y Comisiwn. Rydym yn hyderus nad oes unrhyw ragfarn yn ein hymagwedd at asesu pryderon a godir am elusennau (gweler tudalen 30). Fodd bynnag, mae unrhyw awgrym neu ganfyddiad o ragfarn yn bryder, ac mae'n rhaid i ni roi sylw rhagweithiol iddo.

> *"Roeddem ni'n falch iawn bod William Shawcross wedi siarad yn nigwyddiad cyn lansio ein llwyfan codi arian elusennol newydd, a fydd yn annog Mwslimiaid proffesiynol ar hyd a lled y byd i roi'n uniongyrchol i elusennau. Roedd yr adborth a gafwyd yn dilyn y digwyddiad yn gadarnhaol iawn, yn enwedig o ran araith William a'r teimladau a fynegodd ynghylch y cysylltiad rhwng ffydd ac elusen a haelioni cymunedau Mwslimaidd yn y DU a thu hwnt."*
>
> **Zareen Roohi Ahmed, Cyfarwyddwr Elusennau, ExecutiveMuslim.com**

Er enghraifft, roeddem ni wedi cymryd rhan mewn cyfres o ddigwyddiadau Eid cenedlaethol ar ôl Ramadan yn ogystal â'r Cinio Eid a gafodd ei gynnal gan Fforwm Elusennau Mwslimaidd yng Nghanolfan Treftadaeth Diwylliannol Mwslimaidd Llundain, a fynychwyd gan nifer o elusennau gyda chysylltiadau â chymunedau Mwslimaidd, gan gynnwys Islamic Relief a Muslim Aid. Roedd staff y Comisiwn wedi sicrhau'r rhai oedd yn bresennol nad oes unrhyw ragfarn yn ei waith rheoleiddio a'i fod yn asesu pryderon am elusennau yn wrthrychol yn erbyn fframwaith risg cyhoeddedig. Roedd Comisiwn wedi cydnabod sensitifrwydd y pwnc gan groesawu'r cyfle am drafodaeth agored a di-flewyn ar dafod ag elusennau am ei waith a'r ffordd y mae ei waith yn cael ei adrodd yn y cyfryngau.

Ym Medi 2014, siaradodd ein Cadeirydd yn nigwyddiad i elusennau yn Leeds a esboniodd ein hymagwedd at adnabod ac ymateb i bryderon am elusennau. Esboniodd fod ein meini prawf ar gyfer cychwyn ymchwiliad yn hollol niwtral ac nid oes ganddynt unrhyw beth i'w wneud ag a yw elusen wedi'i ffurfio at ddiben crefyddol neu beidio, neu a yw ei waith yn cefnogi cymuned neu grŵp arbennig. Pwysleisiodd hefyd nad oedd y Comisiwn yn targedu neu'n canolbwyntio'n anghymesur ar elusennau sydd â chysylltiadau â chymunedau Mwslimaidd.

## Cydweithio â phartneriaid

Wrth i ni barhau i ddarparu canllawiau ar-lein ac ymgysylltu ag ymddiriedolwyr trwy ddefnyddio offer digidol, nid yw ein hadnoddau yn caniatáu i ni ddarparu cyngor pwrpasol i elusennau unigol. Yn wir, fel rheoleiddiwr, nid ein rôl ni yw 'dal dwylo' ymddiriedolwyr trwy'r penderfyniadau sy'n gyfrifoldeb arnyn nhw i'w gwneud.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cydweithio'n agos â nifer o sefydliadau partner sydd â'r gallu i ddarparu cymorth mwy ymarferol i elusennau.

Er enghraifft, eleni, roeddem ni wedi helpu Ethical Property Foundation ('EPF') i lansio llinell gyngor newydd i elusennau sydd â chwestiynau neu bryderon yn ymwneud â thir ac eiddo. Cyfeiriwn bob elusen sydd ag ymholiadau cyffredinol ynghylch materion tir ac eiddo i EPF. Rydym yn parhau i gymryd achosion sy'n gofyn am ein hymyrraeth fel rheoleiddiwr.

> *"Ers i'n partneriaeth gyfeirio â'r Comisiwn ddechrau ym mis Chwefror, rydym wedi estyn ein gwaith ar-lein a dros y ffôn, gan helpu i gynyddu'r nifer o bobl sy'n gweithio mewn elusennau bach ar draws Cymru a Lloegr. Rydym wedi gallu rhoi cyngor ar heriau astrus iawn, fel trosglwyddiadau tir a phrydlesi hanesyddol, ac mae elusennau yn gwybod bellach bod cymorth arbenigol ar gael."*
>
> **Antonia Swinson, Prif Weithredwr, Ethical Property Foundation**

**Nodiadau achos**

**Enghraifft o'r cyngor a roddwyd gan yr Ethical Property Foundation**

Cafodd EPF ei gysylltu gan sefydliad cyn oedran ysgol yn Sussex sy'n gweithredu o adeilad y mae'n ei ddal ar brydles gan yr ysgol gynradd drws nesaf. Mae'r elusen yn ystyried adeilad estyniad er mwyn gallu derbyn mwy o blant. Nid yw'r adeilad yn eiddo'r elusen, felly roedd rhaid iddi wybod beth fyddai'n digwydd i'r arian a wariwyd ar yr estyniad pan gaiff y tir ei drosglwyddo'n ôl yn y pen draw i'r landlord ar ddiwedd y brydles. Roedd EPF yn gallu egluro y byddai'r rheolau ar waredu tir elusennol yn gymwys, a chafodd yr elusen ei chyfeirio at weithiwr proffesiynol oedd yn gallu llunio'r adroddiadau angenrheidiol pe byddent yn penderfynu bwrw ymlaen â'r estyniad am ffioedd gostyngol.

Mae gennym gytundebau yn eu lle hefyd â nifer o gyrff mantell, gan gynnwys y Pre-School Learning Alliance a'r National Federation of Women's Institutes, i sicrhau bod eu haelodau yn cydymffurfio â gofynion adrodd.

Eleni, dechreuom ni dreialu prosiect lle mae cyrff mantell yn gwirio ceisiadau cofrestru fel elusen eu haelodau; mae hyn yn debyg i wasanaeth gwirio pasbort y Swyddfa Bost. Nod gwasanaethau o'r fath fyddai helpu i ddileu camgymeriadau mewn ceisiadau ac felly gwella cyflymder prosesu ceisiadau cofrestru. Os yw'r treialu yn llwyddiannus, byddem yn gobeithio lansio'r gwasanaeth gyda nifer cyfyngedig o gyrff mantell, gyda'r nod o gynnwys grwpiau ehangach o bosib ar draws y sector elusennol.

**Wythnos yr Ymddiriedolwyr**

Mae Wythnos yr Ymddiriedolwyr yn ymgyrch gydweithredol genedlaethol i hybu ymwybyddiaeth o rôl yr ymddiriedolwr ac annog mwy o bobl o gefndiroedd amrywiol i ystyried bod yn ymddiriedolwr elusen. Mae'r ymgyrch yn cynnwys ystod eang o grwpiau a sefydliadau o fewn a thu hwnt i'r sector elusennol, ac mae wedi tyfu'n sylweddol o ran proffil ers Wythnos yr Ymddiriedolwyr gyntaf yn 2010. Lansiwyd Wythnos yr Ymddiriedolwyr 2015 yng Nghynhadledd Ymddiriedolwyr NCVO yn Llundain a chafodd cyfanswm o 35 o ddigwyddiadau eu cynnal o dan faner Wythnos yr Ymddiriedolwyr, gan gynnwys seminarau i ymddiriedolwyr presennol a

'digwyddiadau paru' i baru darpar ymddiriedolwyr â swyddi gwag ymddiriedolwyr. Eleni, cynhaliwyd cystadleuaeth yn gwahodd ymddiriedolwyr i gyflwyno fideo byr yn esbonio pam eu bod yn teimlo bod swydd ymddiriedolwr yn werth chweil. Cafodd y tri fideo buddugol eu chwarae yng nghynhadledd Ymddiriedolwyr NCVO.

*"Mae Wythnos yr Ymddiriedolwyr yn gyfle gwych i bobl o bob oedran a gallu, ac o bob cefndir, i gymryd rhan yn rôl yr ymddiriedolwr. Buom yn bartner yn yr ymgyrch ers y cychwyn ac wedi cael ein hysbrydoli i weld sut mae'r Wythnos wedi tyfu a datblygu, gan godi ymwybyddiaeth o lywodraethu da a rhoi cyfle i bobl wneud gwahaniaeth go iawn i'r elusennau sydd o bwys iddyn nhw."*

***Karl Wilding, Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus, NCVO***

**Hybu rhoi'n fwy diogel**

Fel rheoleiddiwr, mae'n hollbwysig ein bod yn diogelu cronfeydd elusennol trwy sicrhau bod y cyhoedd yn deall sut i ganfod elusen ddilys.

Rydym yn cydweithio'n agos â phartneriaid yn y sector elusennol a thu hwnt i hyrwyddo rhoi'n fwy diogel; rydym yn canolbwyntio ein gwaith ar adegau pan fydd pobl yn fwy tebygol o roi. Eleni, roeddem ni wedi gweithio â chyrff mantell i elusennau sy'n gweithio gyda chyrff mantell y gymuned Fwslimaidd i roi cyhoeddusrwydd i fideo rhoi'n fwy diogel Ramadan, sy'n ceisio helpu Mwslimiaid i ganfod elusennau cofrestredig dilys. Cafodd fideo tebyg ei ddosbarthu adeg y Nadolig. Cafodd ein fideos eu gweld dros **22,000** o weithiau.



Sgrin lun o'n fideo Rhoi'n Fwy Diogel dros y Nadolig 2014

Mae ein gwaith rhoi'n fwy diogel hefyd yn ceisio dathlu ac annog haelioni'r cyhoedd a phobl sy'n gysylltiedig â chymunedau crefyddol. Er enghraifft, roeddem ni wedi mynychu ciniawau i ddathlu haelioni'r cymunedau Mwslimaidd yn ystod Ramadan.

Eleni, roedd ein tîm monitro wedi gweithio gyda saith o'r prif weithredwyr rheilffordd a gorsaf a'r Bwrdd Safonau Codi Arian (FRSB) i hyrwyddo rhoi'n fwy diogel dros y rhwydwaith rheilffordd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r saith gweithredwr, sy'n rheoli mwy na 1,000 o orsafoedd, wedi ymrwymo i'r mesurau rhoi'n fwy diogel yn eu gorsafoedd. Er enghraifft, roeddent wedi cytuno ar broses ymgeisio safonedig newydd ar gyfer elusennau a hoffai godi arian yn eu safleoedd ac wedi ymrwymo i fonitro casgliadau elusennol yn agosach. Mae'r broses ymgeisio

hon yn sicrhau mwy o eglurder a chysondeb ymysg gweithredwyr rheilffordd ar y prif wiriadau y mae angen iddynt eu gwneud pan fyddant yn rhoi caniatâd i elusennau sydd am gasglu yn eu gorsafoedd. Nod y fenter yw lleihau'r posibilrwydd o gasgliadau twyllodrus yn y gorsafoedd, cryfhau hyder cyhoeddus mewn rhoi i elusennau a helpu i warchod y ffrwd incwm bwysig hon.

> *"Mae'r mesurau rhoi'n fwy diogel hyn yn gam pwysig ymlaen i helpu i leihau twyll, diogelu'r cyhoedd ac atal y risg hirdymor o niwed i enw da elusennau."*
>
> **Paul Brogden, Prif Uwch-arolygydd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig**

## Ein gwaith rhyngwladol

Mae tua 16,000 o elusennau sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn yn darparu cymorth datblygiad dramor. Mae nifer ohonynt yn gweithio gyda a thrwy bartneriaid ar y tir; amcangyfrifir bod elusennau'r DU yn gwario tua £5 biliwn mewn cronfeydd i sefydliadau partner dramor bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu bod gan y cyhoedd yn y DU ddiddordeb uniongyrchol mewn rheolaeth dda a rheoleiddio effeithiol elusennau a sefydliadau anllywodraethol yn rhyngwladol. Pwrpas gwaith rhyngwladol y Comisiwn yw:

- sicrhau ein bod yn parhau i fod yn ddigon ymwybodol o ddatblygiadau ac yn ymateb i ddatblygiadau mewn fframweithiau rhyngwladol ar gyfer rheoleiddio elusennau
- sicrhau bod cymorth ac arbenigedd digonol ar gael ar gyfer camau rheoleiddio ar gyfer elusennau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr ac awdurdodaethau eraill
- helpu i baratoi cyrff rheoleiddio eraill dramor i reoleiddio mewn modd teg, tryloyw ac effeithiol drwy rannu arferion gorau, profiad ac offer gweithredol a gweithdrefnau sy'n unigryw i'r Comisiwn
- ac, yn gyfochrog â hyn, helpu datblygiad sectorau elusennol iach ac atebol ar draws y byd

Mae rhywfaint o'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau gan y Rhaglen Ryngwladol, tîm bach sydd wedi'i gyllido'n rhannol gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

### Gwaith gyda phartneriaid yn y DU ac Ewrop

Mae'r Comisiwn yn parhau â'i waith cyswllt â rheoleiddwyr elusennau a sefydliadau anllywodraethol yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae ein perthynas ag OSCR (Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban) a Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon yn parhau'n gryf, gyda chyfarfodydd rheolaidd i drafod materion polisi a gweithrediadol rheoleiddiol. O fewn yr Undeb Ewropeaidd, mae Fforwm Rheoleiddwyr Elusennau Ewropeaidd wedi cael ei sefydlu bellach, sy'n dwyn ynghyd rheoleiddwyr y llywodraeth o fewn yr Undeb. Mae'r Comisiwn yn aelod gweithredol o'r fforwm. Mae hyn wedi profi i fod yn fforwm pwysig ar gyfer trafodaethau ar reoleiddio effeithiol ac ar ffyrdd o leddfu risgiau fel twyll a chamdriniaeth gan droseddwyr a sefydliadau terfysgwyr eraill. Mae'r fforwm hefyd wedi trafod gwaith trawsffiniol gan sectorau elusennol Ewrop a rheoleiddio trawsffiniol.

## Gweithdai rhanbarthol

Roedd timau o'r Comisiwn wedi cymryd rhan mewn gweithdai rhanbarthol yn Slofacia a Bangladesh yn cefnogi atal camddefnyddio sefydliadau di-elw ar gyfer cyllido terfysgwyr, mewn cydweithrediad â'r Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithredu yn Ewrop, Cyfarwyddiaeth Weithredol Wrthderfysgaeth y Cenhedloedd Unedig, Adran Wladol UDA ac eraill. Roedd dirprwyaethau o Bacistan, Bangladesh, Nepal, Rwsia, Mongolia, Wcráin ac eraill yn bresennol yn y gweithdai. Roedd dirprwyaethau gwladol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector di-elw, gorfodi'r gyfraith a chyrff rheoleiddio.

## Ymweliadau archwilio yn Nwyrain Affrica

Roedd timau o'r Comisiwn wedi cynnal bord gron yng Nghenia i elusennau sy'n gweithio ar weithgareddau neu'n cefnogi gweithgareddau yn Somalia, a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ac ymweliadau archwilio ar y safle i nifer o elusennau. Cafodd yr angen am y rhaglen waith hon ei nodi o'n gwaith ymchwilio a gweithredol; roedd hefyd yn sicrhau bod ein staff yn deall yn well ac yn cydnabod cyd-destun gweithredu'n rhyngwladol, yn arbennig mewn parthau gwrthdaro ac ardaloedd lle mae grwpiau o derfysgwyr a sefydliadau yn rheoli.

## Y Tasglu Gweithredu Ariannol (FATF)

Mae'r Comisiwn yn cydweithredu'n agos â FATF, corff rhynglywodraethol sy'n hyrwyddo gweithrediad effeithiol mesurau cyfreithiol, rheoleiddiol a gweithredol ar gyfer brwydro yn erbyn gwyngalchu arian, cyllido terfysgwyr a bygythiadau cysylltiedig eraill.

Yn 2014-15, roedd y Rhaglen Ryngwladol wedi cyd-gadeirio grŵp astudiaeth o FATF ar ran Llywodraeth y DU. Roedd y grŵp yn cynnwys 14 o wledydd ac wedi cynhyrchu papur polisi byd-eang ar y 'Risg o Gamdriniaeth gan Derfysgwyr mewn Sefydliadau Di-elw'. Roedd y Comisiwn wedi cydweithio'n agos ag adrannau eraill y DU ar gydlynu cyfraniad y DU at yr adroddiad.




Mae tua 16,000 o elusennau cofrestredig yn gweithio'n rhyngwladol. Mae'r map hwn yn eu dadansoddi yn ôl cyfandir gweithredu. Sylwch, mae rhai o'r elusennau yn gweithio mewn mwy nag un cyfandir.

## Gwaith ym Mhrydain

Mae'r Rhaglen Ryngwladol yn gweithio gyda'r Weinidogaeth dros Ddatblygiad Cymdeithasol yn Bahrain i wella amgylchedd rheoleiddio sector elusennol Bahrain. Eleni, rhoddwyd cymorth technegol ac adeiladu gallu i swyddogion y llywodraeth ac elusennau ym Manama. Croesawyd ymweliad i'r DU o weision sifil o Bahrain a chynrychiolwyr o brif gyrff anllywodraethol Bahrain. Mae'r gwaith hwn wedi'i ariannu'n llawn gan FCO.

## Ymweliadau â ni

Rydym yn parhau i groesawu ymweliadau gan Weinidogion ac uwch weision sifil o bob cwr o'r byd. Yn 2014-15, roedd y Rhaglen Ryngwladol wedi trefnu cyflwyniadau a theithiau astudio i reoleiddwyr elusennau o Dsieina, Bahrain, Jamaica, UDA a Canada.

**Cynhadledd Rheoleiddwyr y Gyfraith Gyffredin Ryngwladol**

Eleni, roeddem wedi cymryd rhan yng Nghynhadledd Rheoleiddwyr y Gyfraith Gyffredin Ryngwladol ym Melbourne, Awstralia, wedi'i chynnal gan Gomisiwn Elusennau di-elw Awstralia. Mae'r gynhadledd yn cael ei chynnal bob 18 mis fel modd o rannu datblygiadau cyfreithiol a rheoleiddiol ym maes rheoleiddio elusennau a gwella cyswllt effeithiol rhwng rheoleiddwyr ym maes awdurdodaethau cyfraith gyffredin. Roedd yr eitemau o ddiddordeb ar yr agenda yn cynnwys ymgyrchu ac eiriolaeth gan elusennau yn dilyn penderfyniad Aid Watch yn Awstralia, graddfa'r budd preifat atodol mewn sefydliadau 'di-elw' elusennol, a chymharu modelau busnes rheoleiddiol gorau.

# 7 Ffigurau'r flwyddyn hon

**Mae gan y Comisiwn bedwar Dangosydd Perfformiad Allanol (DPA) lefel uchel i fesur ei berfformiad yn y meysydd busnes allweddol canlynol:**

| **DPA 1: Darparu arbedion effeithlonrwydd gwerth am arian yn barod ar gyfer 2015-16** |
|---|
| **Wedi'i gyflawni.**<br><br>Fel rhan o Adolygiad Gwariant 2013, cytunodd y Comisiwn â'r Trysorlys i ddarparu gostyngiad real o 6.3% yn ei gynlluniau gwariant yn barod ar gyfer y gostyngiad yn y gyllideb yn 2015-16. Gwnaethpwyd diwygiadau pellach i'r gyllideb gan y Trysorlys yn dilyn Adolygiad Gwariant 2013. Yn ystod 2014-15, roedd y Comisiwn wedi llwyddo i addasu ei ymrwymiadau gwariant staff a di-staff ailadroddus yn unol â'i gyllideb ddiwygiedig am y flwyddyn i ddod. |

| **DPA 2: Ansawdd gwaith achos** |
|---|
| **Wedi'i ragori.**<br><br>Canran gwaith achos y Comisiwn neu ddarnau eraill o waith sydd wedi cael eu hasesu yn dderbyniol neu'n well yw **95%** (2013-14: 90%). Y targed oedd 90%. |

| **DPA 3: Lefel gyffredinol ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau** |
|---|
| **Heb ei fesur eleni.**<br><br>Mae'r Comisiwn yn cynnal arolwg annibynnol bob yn ail flwyddyn i asesu lefel ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf ym Mawrth 2014, a oedd yn graddio ffydd a hyder mewn elusennau yn 6.7 ar raddfa o sero (isel) i ddeg (uchel). Disgwylir i'r arolwg nesaf gael ei gynnal ym Mawrth 2016. |

| **DPA 4: Lefel gyffredinol ffydd a hyder cyhoeddus yn y Comisiwn** |
|---|
| **Wedi'i gyflawni.**<br><br>Targed y Comisiwn oedd cynnal neu wella lefel y ffydd a hyder cyhoeddus yn y Comisiwn, wedi'i fesur trwy arolwg annibynnol oedd yn graddio ffydd yn y Comisiwn yn 6.1 ar raddfa o sero (isel) i ddeg (uchel) yn 2014. Eleni roedd y sgôr wedi parhau'n ddigyfnewid yn 6.0 (yn seiliedig ar faint yr arolwg, yn ystadegol, nid yw hyn yn cynrychioli newid). Roedd y sgôr ar gyfer lefel ffydd a hyder elusennau yn y Comisiwn yn uwch ar 8.3 ar yr un raddfa o sero i ddeg. |

## Cofrestru

**7,192** o geisiadau i gofrestru (2013-14: 6,661)
**4,648** o geisiadau i gofrestru wedi'u cymeradwyo (2013-14: 4,968)
**2,248** o Sefydliadau Corfforedig Elusennol wedi'u cofrestru (2013-14: 1,331)
**34** o geisiadau i gofrestru wedi'u gwrthod yn ffurfiol (2013-14: 23)

## Ymchwiliadau a gorfodi

- **51** o ymchwiliadau statudol wedi'u cwblhau (2013-14: 23)
- **103** o ymchwiliadau statudol wedi'u cychwyn (2013-14: 64)
- **133** o ymchwiliadau yn fyw ar 31 Mawrth 2015 (roedd 87 yn fyw ar 1 Ebrill 2014)
- **119** o achosion asesu wedi'u cwblhau (2013-14: 119)
- **133** o achosion asesu wedi'u cychwyn (2013-14: 115)
- **393** o achosion monitro wedi'u cwblhau (2013-14: 54)[12]
- **442** o achosion monitro wedi'u cychwyn (2013-14: 96)[13]
- **137** o ymweliadau cydymffurfio ac ymchwilio wedi'u cynnal (68 o ymweliadau monitro wedi'u cynnal yn 2013-14)
- **1,060** o bwerau wedi'u defnyddio yn ystod gwaith achos cydymffurfio (2013-14: 790)
- **£44.6m** o asedau elusennol wedi'u diogelu'n uniongyrchol (2013-14: 31.3m)
- **£60m** o asedau elusennol wedi'u cyfrif amdanynt yn yr ymchwiliad dosbarth i elusennau sydd heb gyflwyno manylion mwy nag unwaith ers Medi 2013

## Materion mwyaf cyffredin yn yr ymchwiliadau a gychwynnwyd eleni

- materion cyfrifyddu
- camreoli/camymddwyn
- gwyngalchu arian honedig/amheus
- ffug elusen amheus
- camddefnyddio cronfeydd

## Timau gweithrediadau

**1,024** o achosion cydymffurfiaeth weithredol wedi'u cychwyn (2013-14: 1,865)
**1,125** o achosion cydymffurfiaeth weithredol wedi'u cwblhau (2013-14: 1,972)
**1,169** o achosion caniatâd gweithredol wedi'u cychwyn (2013-14: 887)
**1,425** o achosion caniatâd gweithredol wedi'u cwblhau (2013-14: 1,082)

---

[12] Mae'r holl waith monitro yn cael ei gynnal gan dimau o fewn y gyfarwyddiaeth Ymchwiliadau, Monitro a Gorfodi bellach. Y llynedd, cynhaliwyd rhywfaint o waith monitro gan dîm monitro y tu allan i'r gyfarwyddiaeth honno. Am y rheswm hwn, nid yw'r ffigurau monitro hyn yn uniongyrchol gymaradwy â'r ffigurau monitro'r gyfarwyddiaeth ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.

[13] Mae'r holl waith monitro yn cael ei gynnal gan dimau o fewn y gyfarwyddiaeth Ymchwiliadau, Monitro a Gorfodi bellach. Y llynedd, cynhaliwyd rhywfaint o waith monitro gan dîm monitro y tu allan i'r gyfarwyddiaeth honno. Am y rheswm hwn, nid yw'r ffigurau monitro yn uniongyrchol gymaradwy â'r ffigurau monitro'r gyfarwyddiaeth ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.

## Y meysydd o bryder mwyaf cyffredin mewn achosion cydymffurfiaeth weithredol

- camreoli/camymddwyn
- buddiolwyr mewn perygl.
- llywodraethu gwael
- twyll
- anghydfodau
- camddefnyddio cronfeydd
- materion Ffurflen Flynyddol neu gyfrifon
- gwrthdaro buddiannau
- camddefnyddio buddiolwyr
- pryderon am ddefnyddio incwm

## Cyswllt Cyntaf

**57,075** o alwadau i Gyswllt Cyntaf (2013-14: 88,822)
**55,131** o e-byst wedi'u cofnodi gyda Chyswllt Cyntaf (2013-14: 48,274)
**7,951** o lythyrau wedi'u cofnodi gyda Chyswllt Cyntaf (2013-14: 9,681)
**94.7%** o gysylltiadau wedi'u datrys yng Nghyswllt Cyntaf (2013-14: 94%)
**87%** o Ffurflenni Blynyddol wedi'u ffeilio mewn pryd (2013-14: 86%)
**86%** o gyfrifon wedi'u ffeilio mewn pryd (2013-14: 86%)
**99%** o incwm y sector wedi'i gyfrif amdano mewn cyfrifon a ffeiliwyd (2013-14: 99%)

## Y deg mater mwyaf cyffredin mewn e-byst/llythyrau i Gyswllt Cyntaf

1. Newidiadau i ddogfennau llywodraethol.
2. Ymholiadau am Ffurflenni Blynyddol a chyfrifon.
3. Cwynion yn erbyn elusennau.
4. Ymholiadau am gau neu uno elusen.
5. Ymholiadau am ddyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr.
6. Ymholiadau am dir.
7. Cyfeiriad gohebydd/e-bost/ymddiriedolwr.
8. Manylion elusennau.
9. Ymholiadau am uno elusennau.
10. Sut i gofrestru.

## Gwasanaethau'r Comisiwn a chwynion

- **560** o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi'u hymateb iddynt (2013-14: 672)
- **55** o gwynion (adolygiadau cam dau) wedi cael sylw gan y Tîm Sicrwydd Busnes (2013-14: 53)
- **2** gŵyn wedi'u cynnal yn llawn (2013-14: 9)
- **12** gŵyn wedi'u cynnal yn rhannol (2013-14: 10)

Mae'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd wedi ein cynghori ei fod wedi derbyn **chwe** chwyn i'w hymchwilio yn 2014-15. O'r rhain, mae **dwy** wedi cael eu cwblhau - ni chafodd yr un ohonynt ei chynnal. Mae **dau** achos yn parhau.